

ECO'R WYDDFA

Rhif 179

MAI 1992

Pris 25c.

CYFARFOD CYFFREDINOL ECO'R WYDDFA

Chwi gofiwch ychydig cyn diwedd y flwyddyn ddiwethaf fod y misolyn hwn mewn perygl o fynd a'i ben iddo ond, a diolch am hynny, trodd llawer i fewn i Ysgol Brynrefail i gyfarfod arbennig er mwyn dangos cefnogaeth. Yn codi o'r cyfarfod hwnnw, gwelwyd cryn nifer o newidiadau, e.e. sefydlu Pwyllgor Rheoli a fydd yn edrych ar ôl buddiannau'r papur.

Ar NOS IAU, 7fed MAI am 7 o'r gloch yn Ysgol Brynrefail, cyhelir Cyfarfod Cyffredinol i'r HOLL ddarlennwyr er mwyn rhoi'r newidiadau yma ar y gweill.

Dewch yn llu i'r cyfarfod hwn — nid oes lle i boeni rŵan gan nad oes fawr o berygl i chwi gael swydd yno. Felly dewch i fynegi'ch barn am eich papur chwi. Mae'n hawdd cofio'r dyddiad, sef y 7fed o'r mis am 7 o'r gloch yn Ysgol Brynrefail.


Fe'ch gwelwn chwi yno!

CAPEL DISGWYLFA

Cafwyd adroddiad yn yr *Eco* y llynedd am gau capel Disgwylfa yn Neiniolen. Yn ystod y mis diwethaf cafodd y capel ei ddymchwel, a bellach y mae'r safle wedi ei glirio.

Wedi i'r pulpud gael symud o'i le daethpwyd o hyd i botel wydr a oedd wedi ei gosod dano pan adeiladwyd y capel. Roedd yn y botel lythyr ag ynddo rywfaint o hanes adeiladu'r capel. Roedd ynddi hefyd dair dimai ac un darn tair ceiniog gwyn. Yn ôl y llythyr 'rhoddwyd y darnau a allwyd gael o'r coin oedd yn cael eu bathu yn y blynyddoedd yr oedd yr adeilad yn cael ei hadeiladu gyda'r papur hwn'. 1861, 1862 a 1863 yw'r dyddiadau ar y darnau arian. Gwnaed y cynlluniau yn 1861 a dechreuwyd adeiladu'r capel yn ystod haf 1862. 'Yn haf 1863 pan oedd yr ochr ddeheuol i'r adeilad yn agos i'w uchder angenrheidiol, cododd ystorm fawr a symudodd yr ochr honno o'i lle oddeutu troedfedd tua'r canol, ond gwithwyd ef yn ôl gyda gofal a medrusrwydd mawr.' Yr oedd y capel ar fin cael ei orffen pan ysgrifennwyd y llythyr ar Awst 20, 1864.

Eglurir bod y capel wedi costio tua dwy fil o bunnoedd i'w adeiladu. Yr oedd ychydig dros bum can punt wedi ei gasglu erbyn hynny. Ni roddodd yr ysgrifennwr ei enw wrth ei lythyr. Mae'n ddiddorol hefyd na cheir yr enw Disgwylfa yn y llythyr, ond yn hytrach cyfeirir at Gapel newydd Clwt y Bont.



ETHOLIADAU

Llongyfarchwn Dafydd Wigley ar ei fuddugoliaeth yn Etholaeth Arfon yn yr Etholiad Cyffredinol yn Ebrill a diolchwn i weddill yr ymgeiswyr am 'chwarae'n lân' yn yr ornest.

Bu etholiad yng Nghapel Cefn-y-waun yn Neiniolen yn ddiweddar hefyd, ac enwebwyd chwe pherson o'r llawr i fod yn flaenoriaid. Gobeithio'n arw y byddant yn ymateb yn ffafriol i'r ffydd a'r hyder a ddangoswyd ynddynt.



GWYLIADWRIAETH GYMDOGOL

Amser i 'gofio' yw'r Pasg ond eleni am rhesymau anghywir y cofir am y Pasg ym Methel. Yn oriau mân y bore, rhwng Sul y Pasg a'r Llun cafwyd dwy ladrad yn y pentref.

Digwyddodd y lladrad mwyaf difrifol yn Garej Minffordd ac fe fu'n gryn ysgytwad i'r perchenog, Gari Wyn, sydd wedi creu busnes pur lwyddiannus yn ei gyfnod byr yn y Garej. Llwyddodd y lladron i dorri i mewn trwy gefn yr adeilad a dwyn y gist. Dygwyd modur hefyd o'r Garej, sef Astra GT (gwerth oddeutu £8,500).

Yn ystod yr un noson dygwyd y gist arian o'r blwch teleffôn ger Llys Myfyr.

Y mae lladrau yn cynyddu yn sylweddol ym mro'r *Eco* yn ddiweddar ac yn amlwg fe fydd cryn alw am ail-sefydlu patrwm o blismona y pentrefi. Y mae cynnydd sylweddol mewn fandaliaeth hefyd yn ategu'r gri.

Mae bro yr *Eco* erbyn hyn yn frith o stadau o dai annedd ac o'r herwydd tybed a yw'n amser i nifer o'n pentrefwyr i feddwl o ddifrif am sefydlu cynllun 'Gwyliadwriaeth Gymdogol' (*Neighbourhood Watch*). Efallai mai eich tŷ neu eich busnes chi fydd nesaf.

DIOLCH HOGIA!

Rai misoedd yn ôl daeth yn amlwg fod pryder gwirioneddol am ddyfodol yr *Eco* ond daeth gwerin gwlad at ei gilydd i sicrhau fod y misolyn yn cael adfywiad. Cafwyd Pwyllgor Llywio newydd ac amryw o swyddogion newydd gyda rhai, cofier, yn gwirfoddoli i barhau'n eu swyddi.

Caniad sydd gennym yma i ddiolch i'r holl bobl hynny sydd wedi, sydd yn ac a fydd yn gwneud yn siŵr fod y rhifyn diweddaraf yn cyrraedd carreg eich aelwyd yn fisol. Nid o'r awyr y daw ond mae'n golygu cryn waith gan nifer fawr o bobl i gael y papur yn barod. Derbyniad pawb ein diolch felly ond caniatewch inni rwy'n siŵr enwi dau, sef Twrog a Dafydd a fu tros y blynyddoedd diwethaf mor weithgar a neb yn sicrhau parhâd y papur bro'n ein cylch.

Yn syml a diffuant felly, DIOLCH HOGIA!

SUT MAE GWNEUD Y GYMDOGAETH YN FWY DIOGEL

Trwy fod yn gymydog da a bod ar wyladwriaeth am unrhyw beth amheus, gallwch gynorthwyo i wneud y gymdogaeth yn fwy diogel. Dyma rai o'r pethau y dylech eu crybwyll wrth yr heddlu:

★ dieithriaid yn curo wrth ddrysau ffyrnt neu'n edrych drwy ffenestri ac yna'n sleifio i'r cefn, neu'n loetran yn amheus;

★ dieithriaid yn aros y tu allan i ysgolion, caeau chwarae, etc., ac yn mynd at blant;

★ ffenestri agored mewn tai a'r perchenogion allan neu ar eu gwyliau;

★ dieithriaid yn ceisio agor drysau ceir;

★ unrhyw ddigwyddiad y tybiwch chwi ei fod yn amheus.

MAE MANYLION YN BWYSIG — pan fyddwch yn trosglwyddo gwybodaeth, cofiwch fod disgrifiadau cywir o bobl amheus a cherbydau, a.y.y.b., yn arbed amser a dryswch.

BYDDWCH YN GYMYDOG DA

I RWMANIA

Bydd Angharad Williams o Ddeiniolen yn treulio'r tri mis nesaf yn Rwmania. Gweithwraig gymdeithasol ydy hi yn Ynys Môn. Bydd yn arwain tîm o bump a fydd yn gweithio mewn cartref i blant amddifad yn nhref Sibiu yn Transilvania. Daw aelodau'r tîm o wahanol rannau o Brydain a byddant yn gweithio o dan nawdd yr *Anglo-Roumanian Trust* sy'n un o'r nifer mawr o asiantaethau o wledydd Prydain sy'n gweithio yn Rwmania. Gwelsom ar y teledu luniau llawer o blant Rwmania a'r amgylchiadau torcalonnus roeddynt yn byw ynddynt yn ystod teyrnasiad Csoucescou cyn y chwyldro a ddigwyddodd yno ddeunaw mis yn ôl.

Dymunir yn dda i Angharad yn y gwaith gwirfoddol hwn, a bydd yn anfon llythyr at yr *Eco* o dro i dro yn adrodd peth o'i hanes.

ECO'R WYDDFA

RHIF 179
MAI 1992

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Y TÎM GOLYGYDDOL

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: Caernarfon 5649)

IFOR GLYN EFANS
AFON GOCH, DEINIOLEN
(Ffôn: Llanberis 870068)

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: Llanberis 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(670115).

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

Iola Llewelyn Gruffudd, 17 Stâd Tŷ
Hen, Waunfawr, (Waunfawr 599).

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deinioelen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri, 870491.

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, MAI 28

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

NOS LUN

MAI 18

os gwelwch yn dda

DYDDIADAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
MEHEFIN	MAI 28	BRYNREFAIL	Miss LOWRI P. ROBERTS	Llanberis 870580
GORFFENNAF	GORFFENNAF 2	BETHEL	Mr GERAINT ELIS	Felinheli 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	AWST 27	DINORWIG	Mr MEIRION TOMOS	Llanberis 870056
HYDREF	HYDREF 1	PENISARWAUN	Mrs ANN EVANS	Llanberis 872481
TACHWEDD	HYDREF 29	CWM-Y-GLO	Mrs IRIS ROWLANDS	Llanberis 872275
RHAGFYR	TACHWEDD 26	LLANBERIS	Mr GWILYM EVANS	Llanberis 872034

Llythyr

CWRS DRAMA IEUENCTID CYMRU

(trwy gyfrwng y Gymraeg)
Y Coleg Normal, Bangor
Gorffennaf 20 — Awst 1, 1992

Hoffwn dynnu sylw eich darllenwyr ifanc sydd rhwng 14 a 18 mlwydd oed at y cwrs uchod. Fe'i cynhelir yn flynyddol i bobl ifanc sydd â diddordeb ym maes drama. Nid oes angen profiad blaenorol dim ond brwdfrydedd ac ymrwymiad i gyfranogi'n llawn. Ymhlith yr elfennau yr ymdrinir â hwy fydd meim, coluro, llefaru, goleuo, ysgrifennu a pherfformio. Cyfarwyddwraig y cwrs yw Rhian Mair, Pennaeth yr Adran Ddrama yn y Coleg Normal, a'r staff parhaol fydd yn ei chynorthwyo yw Ion Thomas, Ysgol Pantycelyn, a Catrin Jones, Ysgol Gyfun Llanhari, a'r tiwtoriaid cerdd fydd Rhys Glyn Ysgol y Bermo ac Anest Elwyn Ysgol Talsarnau. Bydd Swyddog Llës hefyd yn bresennol drwy gydol y cwrs i ofalu am anghenion personol yr ieuencid. Yn ychwanegol bydd tiwtoriaid achlysurol yn cyfrannu yn unol â'r anghenion, ac ymysg eraill bu'r canlynol yn cynorthwyo yn y gorffennol — Cefin Roberts, Bryn Fôn, Mari Gwilym, Jeremy Turner, Carys Huw, Mair Gruffydd a

Graham Laker.

Pris y cwrs yn cynnwys llety, 3 pryd y dydd a'r holl hyfforddiant yw £80. Bydd perfformiad cyhoeddus ar noswait olaf y cwrs ac yn Theatr Fach y Maes yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar Awst 3, 1992. Am fanylion pellach a ffurflenni cais cysylltwch â mi drwy ffonio **Caernarfon 78406 (gwaith); neu Caernarfon 77319 (cartref).**

Diolch yn fawr.

Yn gywir,

NED JONES

Ysgrifennydd y Pwyllgor

LLAIS Y BOBOL

Hel Straeon

Gronant

Caernarfon

Annwyl Olygydd,

Yr ydym ar hyn o bryd yn paratoi cyfres o raglenni sy'n ymdrin, yn rhannol, â phroblemau a phynciau ar lefel lleol.

Y nôd yw tynnu sylw cenedlaethol i faterion sy'n gyffredin mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru a chynnig llwyfan i bobl a chymunedau i wyntyllu eu trafferthion.

Fe all y pynciau amrywio o broblemau llwybrau cyhoeddus, diffyg adnoddau, baw ci, llygredd, gwasanaethau cyhoeddus, unrhyw beth a dweud y gwir — difrifol neu ddoniol.

Felly os ydych am gael llwyfan i'ch llais cysylltwch â ni.

Hwyl,

DYLAN HUWS

DAL I GANU, DAL I FYND

Mae Hogiau Llandegai yn siŵr o fod yn un o grwpiau mwyaf poblogaidd Cymru. Nôl yn Ebrill 1957, 35 mlynedd yn ôl, ymddangosodd Now, Ron a Neville ar lwyfan am y tro cyntaf gyda'i gilydd a hynny ym Methesda tra'n aelodau o 'Griw Sgiffi Llandegai'.

Mae 19 mlynedd wedi mynd heibio ers rhyddhau eu record ddiwethaf, 'Hogia Ni' ar label Sain — ac i ddatlu eu 35fed pen-blwydd cafodd casét newydd sbon o ganeuon amrywiol ei rhyddhau, i ddangos eu bod yn 'Dal i Ganu, Dal i Fynd'.

Mae i Hogia Llandegai le arbennig iawn yn oriel yr anfarwolion. Maent wedi perfformio drwy sawl tro ar fydd a sawl newid yn ffasiwn canu — ond yr un ydynt o hyd : Nev y capten wrth y llyw efo'i gitâr, Ron y prif leisiwr wrth yr angor, a Now a'i organ geg yn trin yr hwyliu efo'i hiwmor direidus. Maent yn dal i ddenu ac i ddefnyddio ledled Cymru.

BARGEN O'R AMGUEDDFA

Mae'n debyg fod nifer ohonoch wedi manteisio ar docyn preswylwyr lleol Amgueddfa'r Gogledd yn Llanberis. Am y tâl o £5 mae'r tocyn, sydd ar gael i bawb sy'n byw o fewn plwyfi sifil Llanberis, Llanddeiniolen a Llanrug, yn caniatáu mynediad i holl arddangosfeydd yr Amgueddfa, gan gynnwys yr ymweliad a'r daith bws i Orsaf Drydan Dinorwig. Roedd y tocyn gwreiddiol yn parhau o Fawrth 1990 i Fawrth 1991 ac fe ymestynwyd y cyfnod hwnnw hyd at ddiwedd Mawrth 1992. Bellach mae'r Amgueddfa yn gwahodd trigolion y plwyfi uchod i brynu tocyn newydd fydd yn dal mewn grym hyd at ddiwedd Mawrth 1993.

Gellir gwneud hynny drwy anfon at Dafydd Roberts, yn Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis, LL55 4UR, gan gynnwys siec neu archeb bost am £5 yn daladwy i Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Bydd croeso hefyd i chwi ymweld â'r Amgueddfa a gwneud cais wrth y ddesg tocynnau.

Prif Arddangosfa'r Amgueddfa ar hyn o bryd yw 'Ynni Cymru' sydd yn sicrhau wrth ei weld, ond y mae yno hefyd gyfres o arddangosfeydd dros-dro. Gellir cael rhestr gyflawn o'r rhain drwy gysylltu â'r Amgueddfa, ond dros y misoedd nesaf byddant yn cynnwys arlunio, ffotograffiaeth, mapiau, botaneg, yn ogystal ag arddangosfa gan Amgueddfa Werin Cymru — a'r cyfan am £5!!



GWESTY'R CASTELL

Yn dilyn cyhoeddi'r stori yn yr Eco diwethaf am gynlluniau cwmni Watkin Jones a'i Fab i ddymchwel gwesty'r Castell yn Llanberis, er mwyn adeiladu tai, siopau a fflatiau, fe fenthycwyd y llun uchod i'w gyhoeddi. Cerdyn Post ydyw mewn gwirionedd ac mae'n dangos yr hen

westy mewn amser dipyn mwy llewyrchus na'r presennol — rhyw 75 mlynedd yn ôl mae'n debyg. Enw'r perchenog ar y pryd oedd C. G. Barrios. Cafwyd golwg ar amryw o hen gardiau yn dangos rhai o westai eraill y fro ac efallai y cawn gyfle i gyhoeddi mwy ohonynt dros y misoedd nesaf.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Urdd — Adran Bentref:

Nos Fercher, Mawrth 18: Fe fwynhaodd pawb eu hunain yn y Ganolfan Hamdden, rhai yn nofio a rhai yn y gampfa. Diolchir i'r rhai a ddaeth i ofalu am y plant.

Nos Fawrth, Mawrth 24: Treuliwyd noson ddiddorol yng nghwmni Mrs Bronwen Jones, yn gwneud anrheg ar gyfer Sul y Mamau. Diolchir iddi am roi ei hamser.

Nos Fawrth, Mawrth 31: Bu pawb yn sgwrsio gyda Mr Richard Llwyd Jones, cyn mynd ati i lunio posteri lliwgar. Diolchodd Huw iddo am noson ddiffr.

Nos Fawrth, Ebrill 7: Dyma noson olaf y tymor a chafwyd noson o ddawnsio disgo a bwyta bwyd blasus wedi'i baratoi gan y mamau. Diolchodd Ynnyr i bawb a drefnodd y noson ac i Rhian am ofalu am y disgo. **Mabolgampau'r Urdd:** Mae trefniadau ar y gweill ar gyfer y Mabolgampau a gynhelir ym mis Mehefin.

Wedi dau dymor difyr a hapus diolchir i bawb am bob cydweithrediad.

Ysgol Sul Bosra: Nos Lun, Mawrth 30, aeth nifer o blant Ysgol Sul Bosra ac Eglwys Santes Helen i'r Ganolfan Chwaraeon ym Mangor i chwarae gêm bêl-droed 5-bob-ochr dan 11 oed. Enillwyd un gêm a cholli'r llall. Diolchir i David Philips ac Elizabeth Jones am gludo a gofalu am y plant. **Nos Fercher, Ebrill 1,** tro y rhai dan 14 oed oedd mynd i Fangor. Colli fu'u hanes hwythau mewn un gêm a chyfartall mewn gêm arall. Yr hyn oedd yn bwysig oedd eu bod oll wedi mwynhau eu hunain ac wedi cael cyfle i ddod i adnabod aelodau eraill o Ysgolion Sul Cylch Arfon. Diolchir i Bryn Griffiths a Dafydd Roberts am gludo'r plant.

Cynhaliwyd Cymanfa'r Annibynwyr yng Nghapel Jeriwsalem, Llanberis, bnawn Sul, Ebrill 12. Gyda'r mudiad Oxfam yn dathlu'i hanner can mlwyddiant eleni, adroddwyd hanes y mudiad ar lafar a chân gan y plant. Diolchir i'r plant am ddysgu'r gwaith mor drwyadl ac i'r holl athrawon am eu hyfforddi.

Pnawn Sul, Ebrill 26, yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon, am 2 p.m. bydd yr aelodau yn cyflwyno stori 'Saccus a'r Bieden' ar lafar a chân. Tipyn o gamp yw dysgu'r holl waith yma ar gyfer dwy gymanfa bob blwyddyn fel hyn ac mae'r plant i'w canmol yn fawr iawn am eu gwaith caled — o'r ieuengaf dwyflwydd oed i'r hynaf pymtheg oed. Diolch i chwi blant. Wedi Gwasanaeth y Gymdeithas Feiblaidd, ym mis Mehefin, bydd trip i chwi ym mis Gorffennaf — rydych yn ei haeddu.

Clwb Ieuencid: Gyda tymor arall bron a dod i ben, mae'r Clwb wedi ymgymryd â llawer o weithgareddau amrywiol yn ystod y flwyddyn. Roedd rhai aelodau wedi llwyr ymladd ar ôl yr aerobics, ond methu yn lân a wnaeth yr aelodau i ddod o hyd i Aled Jones arall yn ystod y noson Karaoke!

Cafodd rhai aelodau gyfle i droi eu dwylo at grochenwaith, mae'n siŵr bod rhai rhieni wedi cael braw pan ddaeth yr aelodau adref yn waed i gyd wedi'r noson goluro!

Treuliwyd nifer o nosweithiau

diddorol yn y Ganolfan Hamdden yn nofio, ac yn chwarae pêl-droed.

Gorffennwyd y tymor gyda phleserdaith i Alton Towers. Edrychir ymlaen at y tymor nesaf ym mis Medi.

Dymuna'r aelodau i gyd ddiolch i David Philips am baratoi rhaglen ddiffr ac amrywiol iddynt yn ystod y flwyddyn '91-92.

Ysgol Tan-y-coed: Mawrth 11, mwynhaodd aelodau'r Clwb Sbondonics sioe ddiffr yn Ysgol Brynrefail. Mawrth 20fed treuliodd safon 4 ddiwrnod cyfan yn yr Ysgol Uwchradd cyn trosglwyddo yno ym mis Medi.

Wedi saith wythnos yn gofalu am Safon 1 a 2 ffarweliwyd â Mrs Len Roberts o Fethel. Diolchir iddi am bob cydweithrediad. Wedi triniaeth yn yr ystyby croesewir Mrs Shirley Roberts yn ôl gan obeithio ei bod wedi llwyr wella.

Perfformiwyd dramodig ar gân gan y plant ddiwedd y tymor, a gobeithir ei chyflwyno i'r rhieni oll i gloi'r ysgol cyn gwyliu'r haf. Stori Noa ydyw, a diolchir i Mrs Ann Thomas am baratoi'r holl waith. Atgoffir y plant i ddod a'u tiwbiau Smarties i'r ysgol — tiwbiau yn llawn o arian yn hytrach na melysion!

Pwyllgor Neuadd: Tynnwyd Clwb Cant Mawrth yn yr Ysgol a'r enillwyr oedd — 1, Gwilym Jones, Groeslon; 2, R. Griffith, Groeslon Isaf; 3, G. Roberts, Weirglodd Goch. Tynnir Clwb Cant Ebrill mewn pwyllgor.

Nos Wener, Ebrill 10, cynhaliwyd noson o weithgareddau'r Pasg a thynnu'r Raffl Wanwyn. Cafwyd nifer o gystadlaethau diddorol ac o safon uchel yn ôl y beirniad, Mrs Anwen Owen, Llanrug. Diolchir iddi am feirniadu mor annwyl ac am ei geiriau caredig i bob cystadleuydd. Bu'r ymateb yn hynod lwyddiannus.

Oed Meithrin — Llun: Cadi. **Cerdyn:** 1, Elin; 2, Catrin; 3, Luke. **4-7 oed — Llun:** 1, Mathew; 2, Deian; 3, Manon.

Cerdyn: 1, Karen; 2, Mathew a Joe; 3, Deian. **Safon 1 a 2 — Cerdyn:** 1, Katie ac Erin; 2, Nia; 3, Dion. **Safon 3 a 4 — Cerdyn:** 1, Sian a Vanessa; 2, Elgan; 3, Chris, Wena, Lyn, Iwan.

Uwchradd — Cerdyn: Angela. **Addurno Het:** 1, Urien; 2, Luke; 3, Elin. **Addurno Wy:** 1, Nia ac Urien; 2, Karen; 3, Joe a Siân. **Gardd Basg:** 1, Karen; 2, Nia a Dion; 3, Elgan. **Addurno Teisen:** 1, Cenin; 2, Manon; 3, Anest ac Erin.

Enillwyr y Raffl Wanwyn oedd — £25: Iwan Glyn; £15: Mrs Beryl Thomas, Llanrug; £10: A. Hughes, Alijen, Penisarwaun. Diolchir i bawb a fu'n brysur yn gwerthu'r tocynnau ac i bawb a brynodd lyfrau er budd y Neuadd Gymunedol. Gwnaed elw o dros £300.

DRAENOG

Mae gen i gefnder a fu'n llygad-dyst i ddigwyddiad hynod ar faes golff Pwllheli yn ystod y mis diwethaf. Golffwr o'r fro hon oedd yn 'swingio', a hynny yn ôl y stori a gefais i, efo pêl golff goch. Braidd yn goch oedd ei 'swing' hefyd, mi dybiwn, gan i'r bêl ddiplannu dros do'r tŷ clwb, a malu ffenestr car rhyw gyfreithiwr o Lŷn yn deilchion. Achos o S.O.S. ATS?

Enillydd raffl y noson, sef dau wy Pasg deniadol — rhoddedig gan Elizabeth Jones ac Elinor Williams — oedd Dion Roberts a Helen Owen. Diolchir i Elizabeth, Elinor ac i Sioned am ofalu am y raffl. Gwnaed elw o £14.70. Diolchir i bawb a gefnogodd y noson.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i John Arwyn am ei gydweithrediad a'i ffyddlondeb i bob cyfarfod a dymunir pob hapusrwydd iddo yn ei swydd newydd yn y de. Hyderwn y caiff y cyfle i ddod i'n gweld pan agorir yr Ysgol Gymunedol yn swyddogol yn y dyfodol agos. Pob hwyl a phob bendith.

Llongyfarchiadau a phob bendith i Pat ac Arnold Jones, Cae Arthur, Waun, ar achlysur eu Priodas Arian, ar Fawrth 25. Llongyfarchiadau i Lois Dafydd ar ei llwyddiant ysgubol yn ei arholiad piano, gradd 5 gydag anrhydedd. Dalied ati Lois.

Diolch: Dymuna Pat ac Arnold Jones ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Arian yn ddiweddar.

Pob lwc: Y mae'r hen arholiadau bondigrybwl wrth y drws. Dymunir pob llwyddiant i bawb sy'n sefyll arholiadau TGAU, Lefel-A ac arholiadau Coleg.

Efeilliaid: Llongyfarchiadau i Anwen ac Aled Jones ar enedigaeth efeilliaid, Gwawr a Dafydd, Wyr a wyres i Leslie a Nansi Jones, Meillionydd. Llongyfarchiadau i chwi oll fel teulu.

DRAENOG

Pa wraig o fro'r Eco a deithiai'n hapus i gyfarfod tra phwysig tua'r Amwythig yn ddiweddar? O gyrraedd y man cyfarfod, bu iddi sylweddoli nad oedd neb o'i chydabod yno. Pwy a ymbalfalodd ymysg geriach y bag llaw a chanfod y llythyr yn nodi mai yng Nghaerdydd, prifddinas Cymru oedd y dewis le i'r cyfarfod? Neidio i'r trênn eto a chyrraedd ein prifddinas o fewn ychydig funudau i ddiwedd y trafodaethau. Beth am eiliad cyn cychwyn o Lanbêr, Mrs _____, i sicrhau fod y manylion yn gywir y tro nesaf?



Cân i Gymru: Llongyfarchiadau i Dafydd Les a Tony Elliott ar gyrraedd y drydedd safle gyda'u cân 'Ble'r Aeth y Tân', yng nghystadleuaeth 'Cân i Gymru' — y geiriau gan Tony a'r gerddoriaeth gan Dafydd. Edmygedd a chefnogaeth i'n hieuenctid heddiw sydd yn y gân — ein hieuenctid dewr sy'n brwydro

dros eu hiawnderau a'u heiddo gan wynebu'r llysoedd a chloeon carchar. Er mynd yn hŷn ac oherwydd pwysau gwaith a chyfrifoldebau teuluol, ac ati, 'euogrwydd cenedlaetholwyr cadair esmwyth wrth y tân', sydd yn y gân.

Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch a dalied ati.



THE
SEIONT
MANOR
HOTEL

LLANRUG. Ffôn: 673366

GWESTY



HAMDDEN

Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.

I glywed mwy Ffoniwch 673366 a gofynnwch am Maggie

Swper rhamantus i ddau

Cinio hamddenol

Sgwrs hefo ffrindiau

dros baned o goffi

Brecwast, cinio neu

swper busnes

Parti dathlu

Cinio Dydd Sul i'r

teulu

Gwledd brodas

fythgofiadwy


Sauna, nofio, ystafell

ffitrwydd

Ymlacio ym mar y

llyfrgell

Cydnabod: Dymuna Jean a Ted, Ceris, Rhodfa'r Môr, Nefyn, Pwllheli, ddatgan eu gwerthfawrogiad am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt trwy lu o gardiau, llythyrau ac ymweliadau yn ystod eu profedigaeth o golli mam ofalus mor anisgwyl, sef Mrs J. Christisen, Tŷ Capel, Cysegr, ar Ionawr 9, 1992. Diolch i Weinidog, blaenoriaid ac aelodau'r Cysegr ac i'w chymdogion a'i ffrindiau am eu gofal a'u caredigrwydd yn ystod y misoedd olaf yn Tŷ Capel wedi ei phrofedigaeth o golli ei phriod. Bu hyn yn gymorth a chysur mawr iddi. Diolch am bob cefnogaeth a chymorth a dderbyniodd Mr a Mrs Leslie Chrisisen yn ystod eu cyfnod fel gofawr Tŷ Capel am dros deng mlynedd ar hugain. Buont yn hynod o ddedwydd yno.



Actor Ifanc: Bu Meilyr Emrys yn brysyr yn ystod yr wythnosau diwethaf yn cymryd rhan mewn cyfres gomedi newydd oedd yn cael ei ffilmio gan Ffilmiau Eryri. Edrychwn ymlaen i weld y gyfres yn yr hydref.

Ysgol Sul Y Cysegr: Llongyfarchiadau i ddau dîm o Ysgol Sul Y Cysegr ar gyrraedd y rownd derfynol mewn dwy gystadleueth 'knockout' pêl-droed a phêl-rwyd ym Mangor yn ddiweddar. Colli o un gôl i ddim yn erbyn Ysgol Sul Capel Mawr Llanrug oedd hanes yr hogiau, a cholli hefyd wnaeth y genethod, 4-1, eto yn erbyn Capel Mawr.

Llwyddiant Cerddorol: Llongyfarchiadau i'r canlynol am lwyddo mewn arholiad piano yn ddiweddar — Awen Thomas, gradd 1 gyda theilyngdod; ac Anest Williams, gradd 2.

Y Neuadd Goffa: Yn dilyn ymddiswyddiad Mr Gwyndaf Williams o fod yn drysorydd pwyllgor y Neuadd talwyd teyrnged iddo mewn cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd nos Fercher, Ebrill 22. Mynegwyd gwerthfawrogiad o'i lafur di-flino dros y Neuadd am nifer o flynyddoedd gan y llywydd, Mr Goronwy Jones, ac ategwyd y diolchiadau gan bawb oedd yn bresennol. I olynu Mr Williams dewiswyd Mrs Nora Parry yn drysorydd y Clwb 200 a Mr Iorwerth Williams yn drysorydd cyffredinol.


Mynegwyd pryder ynglŷn â arafwch cwblhau y Neuadd newydd a phenderfynwyd rhoi pwysau am gael y gwaith wedi ei gwblhau yn fuan.

Llongyfarchiadau i Rhys a Petra, 25 Y Ddôl, ar enedigaeth merch fach, Ffion, yn ddiweddar.

Wedi colli 'watch'?: Canfuwyd oriawr gyda wyneb go anghyffredin arni ar y ffordd ym Methel ar Fawrth 1. Mae i'w chael (ar ôl disgrifiad manwl) yn Llain yr Ardd, Bethel (670186).

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726



Dewi, Eleri a Lowri.

Yr Urdd: Prysyr iawn fu hanes y gangen leol yn ystod yr wythnosau diwethaf. Bu llawer o'r aelodau yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir, gyda'r canlynol yn cynrychioli'r gangen leol yn Eisteddfod yr Urdd yn Rhuthun ddiwedd mis Mai — Lowri Williams, dawnio disgio; Eleri Robinson, adrodd; Dewi Lloyd Griffith, cornet; a Chôr yr Adran. Pob dymuniad da iddynt. Fe ddaeth y parti adrodd dan 15 yn ail, y parti dawnio gwerin dan 12 yn ail, a Bethan Fôn Jones yn ail. Ar ddiwedd y dydd roedd yr Adran yn drydydd am y darian.

Dawn arall sydd gan y merched yw chwarae pêl-rwyd. Llwyddodd y tîm

dan 12 oed i ennill yn sirol, ac felly bu yn cynrychioli'r Gangen ym Mhencampwriaeth Chwaraeon yn Aberystwyth. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i Miss Bethan Evans am ei chymorth.

Bu nifer o blant eto yn Aberystwyth y tro hwn mewn cystadleuaeth Jiwdo (gweler yr hanes ar y dudalen chwaraeon).

Bu 25 o blant am benwythnos yng Nglanllyn ddechrau'r mis. Pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr er gwaetha'r ffaith i rai ddisgyn i'r llyn! Diolch eto i Miss Bethan Evans am fynd gyda'r plant.

CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

- ★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
- ★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)
- ★Gwres canolog llawn
- ★Sustem ddiogelu rhag tân
- ★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
- ★Sustem alw nyrs
- ★Yn Cwrdd â phob angen personol
- ★Lle bwyta mawr
- ★Aros cyfnod hir/byr
- ★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
- ★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
- ★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
- ★Coginio cartefol
- ★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
- ★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.

'I forio . . . i forio . . .'

Mae pythefnos llawn antur yn wynebu Bethan Jones o fferm Y Fachell, Llanddeiniolen, yn y dyfodol agos. Gyda merch arall o Ddinas Mawddwy bydd Bethan yn ymuno â chriw y llong hwylio 'Winston Churchill' a fydd yn hwylio o borthladd Poole, Dorset.

Trwy ei chysylltiad â Mudiad Ffermwyr Ieuainc y Llwyddodd Bethan i ennill ei lle ar y fordaith, a drefnir gan adran Cynllun Bywyd Gwledig y Mudiad mewn cydweithrediad â'r Rank Foundation. Mae'r ddwy eneth yn aelodau gweithgar o'u clybiau ac o'r Ffederasiwn Sirol.

Bu'n rhaid i Bethan wynebu nifer o gyfweiliadau gyda'r un terfynol ar faes y Sioe Amethyddol yn Llanellwedd. Prif nod y cynllun yw galluogi merchef ieuainc i gydweithio yn effeithiol gyda merched eraill o gefndiroedd gwahanol. Ymys eu dyletswyddau ar y llong fydd llywio, gorchwyllo'r hwylybrennau, codi angor, a pharatoi brecwast — os bydd chwant bwyd arnynt!

Gobaith Bethan wedi iddi ymadael ag Ysgol Brynrefail yw ymuno â'r heddlu ac fe wêl y daith yma fel cyfle gwyb i brofi ei hunanhyder a'i gallu i ymdopi o dan straen.

Nid yw'r manau y byddant yn ymweld â hwy wedi eu trefnu'n bendant gan fod hyn yn dibynu ar y tywydd yn ystod y pythefnos. Fe wyddus, serch hynny, bod bwriad i hwylio o gwmpas Ewrop. Cafwyd ychydig o hyfforddiant yn barod yn enwedig i beidio â wynebu'r gwynt os yn dioddef o salwch môr. Fel rhan o'r cynllun disgwylir i Bethan gadw cofnodion manwl o'i phrofiadau. Efallai y cawn rannu rhai ohonynt gyda hi mewn rhifyn arall o'r Eco. Dymunwn wynt teg — a stumog sefydlog — iddi.



Bethan Jones.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Llongyfarchiadau i Harri Rheinallt Parri, cyn-ddisgybl Ysgol Gwaun Gynfi ac Ysgol Brynrefail am gyflawni ei Ddoethuriaeth (Ph.D.) mewn 'Neurophysiology' ym Mhrifysgol Southampton.

Y mae Rheinallt wedi derbyn swydd ymchwil meddygol ym Mhrifysgol California, San Francisco, ac mae'n dechrau ar y gwaith ym mis Ebrill. Dymuniadau gorau iddo yn ei anturiaeth arbennig.

Priodas: Ar 14 Mawrth, yng Nghapel Cefn-y-Waen, unwyd mewn glân briodas Sandra Jane Williams, Rhyd Fadog, Deiniolen â Ifan Lloyd Evans, Cae Stanley, Bontnewydd, gyda'r Parchg John Pritchard yn gweinyddu a'r organyddes oedd Miss Lola Llewelyn.

Yn dilyn y gwasanaeth arlwywyd iddynt wledd yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis, yng nghwmni nifer dda o'u perthnasau a'u cyfeillion. Yn ddiweddarach y noson honno cynhaliwyd disgo yn yr un adeilad i ddathlu'r achlysur hapus.

Trannoeth y bore, ymadawodd y ddeuddyn llon mewn awyren o Fanceinion i dreulio eu melrawd ar ynsodd y Canary.

Dymunwn iddynt fendith Duw a mawr ddedwyddwch yn eu cartref newydd yn Y Groeslon, ger Caernarfon.



Urdd: Pob lwc a dymuniadau gorau i Lyndsey V. Parry ac Euros Wyn Williams yn Eisteddfod yr Urdd Bro Glyndŵr yn Rhuthun ddiwedd mis Mai. Bydd Lyndsey yn cystadlu ar yr unawd 12-15 oed ac Euros ar yr unawd pres 15-19 oed.



Harri Rheinallt Parri sydd newydd gychwyn swydd yn San Francisco.

Clwb Elidir: Cafwyd cyfarfod ar Mawrth 17 dan lywyddiaeth Mrs Megan P. Morris pan gafwyd ychydig gemau a bingo. Gwesteion y te oed Mrs Ellen Williams, Mrs Jane C. Hughes a Mrs Glenys Williams. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Ellen Williams a'r enillydd oedd Mrs Edna Coles. Yr oeddem yn falch iawn fel aelodau o gael llongyfarch Mrs Ellen Williams ar ei phen-blwydd yn 90 oed. Y mae yn dal yn ffyddlon yn yr holl gyfarfodydd. Pob bendith Mrs Williams a gobeithio y cewch iechyd am flynyddoedd eto. Croesawyd aelod newydd i'r Clwb, sef Mrs Glenys Roberts, Maes Gwylfa.

Cafwyd cyfarfod arall ar 31 Mawrth pryd y treuliodd prynhawn difyr iawn yng nghwmni Mrs Margaret Cynfi Griffith. Rhoddwyd y te gan Mrs Edna Coles, Mrs Dolly Brown a Mrs Pat Evans. Enillwyd y raffl, rhoddwyd gan Mrs Edna Coles, gan Mrs Megan P. Morris. Croesawodd y llywydd, Mrs Eirlys Ll. Jones, ddwy aelod yn ôl ar ôl gwaeledd, sef Mrs Aileen H. Jones a Mrs Jennie E. Williams, ac hefyd dymunwyd pen-blwydd hapus i Mrs Annie M. Morris. Diolch hefyd i Mrs Emyr Pritchard, Deiniol Road am ei rhodd yn ôl ei harfer bob blwyddyn. **Ysgol Feithrin:** Yn ystod y misoedd diwethaf cynhaliwyd nifer o weithgareddau er mwyn codi arian at gronfa yr Ysgol Feithrin. Yn dilyn



Pobl ifanc a dderbyniodd Fedydd Esgob gan y Gwir Barchedig J. Cledan Mears, Esgob Bangor, yn Eglwys Crist, Llandinorwig, ar ddydd Sul, 23 Chwefror 1992.

Rhes gefn (o'r chwith i'r dde): Huw Tegid Roberts, Arwel Wyn Jones, Esgob Cledan Mears, Claire Louise Jones, Dylan Wyn Hughes, Ynyr Gruffudd Roberts.

Rhes flaen (o'r chwith i'r dde): Tristan Bedwyr Jones, Elfed John Williams, Gareth Wyn Hughes, John Eryl Jones, Dafydd Glyn Jones, Bronwen Angharad Fraser-Jones, Anne Marie Williams, Margaret Williams a Linda Morris.

Heb fod yn y llun: Arwyn Jones, Dafydd Jones ac Iwan Jones.

gwariant o dros fil o bunnoedd am wresogyddion newydd i'r ysgol, penderfynwyd bod rhaid cynnal amryw o nosweithiau nodedig i geisio cryfhau cronfa'r ysgol. O ganlyniad i'r gefnogaeth frwd a gawsom, dymunwn fel ysgol ddiolch i bawb a fu'n paratoi, cyfrannu neu gefnogi'r gweithgareddau dan sylw, megis y noson ddistawrwydd nodedig, colli pwysau nodedig, y Noson Goffi, parti dillad a'r parti coluro. Hoffem ddiolch hefyd i'r Clwb leuenctid am yr arian a dderbyniwyd o'r pêl-droed nodedig ac i Mr Ifan Bryn Roberts am enwebu'r ddewis ysgol i dderbyn rhodd arbennig cystadleuaeth 'Karioki' ar rhaglen 'Nos Sadwrn'.

Diolch yn fawr iawn i'r rhieni, y pwyllgor, pobl yr ardal a'r busnesau lleol am eu cefnogaeth a'u rhoddion, hefyd i Mr Roberts, Prifathro Ysgol Gwaun Gynfi am ei barodrwydd i helpu bob amser.

Clwb 100 Ysgol Gwaun Gynfi: Enillwyr mis Mawrth yw — 1, Margaret Roberts (26); 2, Dilys Owen (68); 3, Carol Jones (57).

Clwb 100 Plaid Cymru Deiniolen: Enillwyr mis Ebrill yw — £10: Mr Alwyn Owen, 9 Tai Glandŵr; £8.50: Mrs Sian Hughes, 8 Rhes Faenol.

Diolchiadau:

Dymuna Mrs Ellen Williams, 2 Y Bwthyn, ddiolch i bawb am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

Dymuna Mari a Billy, 6 Ffordd Deiniol, Deiniolen, ddiolch i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl anrhegion, arian a chardiau a dderbyniasant ar enedigeth eu mab, Liam Joseph.

Fe hoffai Meryl a Stephen, 10 Stryd Fawr, Deiniolen, ddiolch i bawb am yr holl anrhegion a'r cardiau a dderbyniasant ar enedigaeth eu mab, Iwan Vaughan Owen.

Dyddiadau i'w cofio:

Helga Drysor, Mehefin 13. I gychwyn am 5.30 o Rhyd Fadog.

Noson Goffi, nos Wener, Medi 25, am 6.30 yn Ysgol Gwaun Gynfi. Yr elw at Glwb Snwcer y pentref.

**OS YDYCH CHI YN
BYW YN NINORWIG
NEU YN Y CEUNANT
TROWCH I
DUDALEN 11**

**GORSAF BETROL
BERAN**



DEINIOLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

**IEUAN
WILLIAMS**

Glanffrwd

DEINIOLEN

Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

**OSMOND SHAW
DEINIOLEN**

GWERTHU
— TRWSIO

★ Teledu

★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth

Ffôn 24 awr

LLANBERIS 870545

O SIAMBAR SELWYN

Oscar Wilde ddywedodd, 'Prin fod na'r un aelod o'r Tŷ Cyffredin sy'n werth cael ei beintio mewn olew, ond gellid gwyngalchu amryw ohonyn nhw.'

Ydy pethau wedi newid ar ôl yr etholiad diwetha' 'ma ys gwn i? Gwleidydd cadair esmwyth fŵm i ar hyd fy oes. Am dymor byr iawn y bŵm i yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol. Unwaith y bu i mi dderbyn y cyfrifoldeb o fod yn Glerc i Gyngor Llanddeiniolen mi fŵm i'n hollol 'niwtral' cyn belled â fy mod yn aelod o unrhyw blaid arbennig yn y cwestiwn.

Ond eto, yn fy nghatre i, Bryn Alun, y cychwynwyd mudiad Plaid Cymru ym Methel. Hogyn bach yn chwarae hefo 'Meccano' oeddwn i tra roedd nhad a mam a rhyw ddynaid o bobl dda Bethel yn trafod dyfodol y blaid gyda rhai fel y Parchedig Ben Owen, Llanberis, Yr Athro Jac Daniel, Ambrose Bebb a J. E. Jones. Pobol ddiarth oedd rhain i mi y pryd hynny — enwau diarth, ac roedd drws Bryn Alun dan glo pan ddeuai rhain i'r aelwyd.

Roedd angen dyn dewr iawn i ddangos ei liw gwyrdd yn chwael Llanberis y dyddiau hynny. Ond roedd nhad yn un o'r ychydig a wnai hynny. Roedd Perisfab wrth gwrs yn un arall.

Fel mae pethau wedi newid. Mi fyddent yn ymfalchïo o weld Gwynedd yn wyrdd heddiw, a'r wlad o Amlwch i Abergwaun yn rhan o'r patrwm gwleidyddol.

Ond dyma fi eto yn dangos fy nhueddiadau gwleidyddol er nad wyf yn aelod swyddogol o unrhyw blaid. Ac i ddeud y gwir plaen wrthach chi — wela i ddim bod 'na le i wleidyddiaeth o gwbwl ar lefel Cynghorau Cymdeithas. Ond mae 'na gyfrifoldeb ar ein Cynghorau Lleol i ddiogelu'r iaith, ac yn wyneb y mewnlfriad presennol, fe ddylai pob Cyngor Cymdeithas fabwysiadu polisi iaith gadarn. Cofiwch mai y Cyngor yn unig a fedd yr hawl i benderfynu beth yw iaith y Cyngor.

Waeth i mi orffen sôn am etholiadau ddim gan i mi ddechra'. Cofio bod yn y cyfrif yng Nghaernarfon sawl blwyddyn yn ôl bellach, a'r diweddar R. E. Jones, Llanberis, yn ymladd dros Blaid Cymru. Daeth un boc i mewn a hwnnw bron i gyd i R.E., ac yntau yn ei ffordd ddireidus yn ymateb, 'Dew, roeddwn i'n dechra poeni am eiliad mod i'n mynd i fewn'.

Mae un peth wedi newid er colled.

Etholiad drwy gyfrwng y teledu gawn ni bellach. Dim mwy o'r hen frwdfrydedd pryd y byddai ymgeiswyr pob plaid yn eu tro yn cynnal cyfarfodydd yn ysgolion yr ardaloedd. Dyna'r adeg y caem yr 'heclo' a'r dywediadau ffraeth.'

Yn ystod yr holl ddadlau a'r ffræo a gafwyd ddechra'r mis 'ma chofia i ddim i mi glywed unrhyw ddywediad ffraeth a chofiadwy. Yn wir y dywediad mwya cofiadwy i mi ei glywed yn ddiweddar oedd yr hyn a ddywedodd y pêldroediwr Joey Jones, Wrecsam, pan gyhoeddodd ei fod o am 'hongian ei 'sgidiau'. Sôn roedd o am y cyngor gorau a gafodd o, a hynny gan Bob Paisley pan ymunodd Joey â Lerpwl: 'Cofia,' meddai Paisley, 'mae'n neis bod yn bwysig, ond mae'n bwysicach bod yn neis.'

Fyddai Oscar Wilde ddim yn medru deud dim gwell. A dyna gyngor gwerth chweil i bob ymgeisydd seneddol hefyd yntê?

I gloi dyma un arall o ddywediadau pryfoclyd Oscar Wilde, o gofio'r ymgyrch a fu: 'Tydi cwestiynau byth yn wirion — mae atebion weithiau.'

BETWS GARMON

Llongyfarchiadau i Michael, Ystrad Isaf, ar basio ei brawf gyrru car. Hwyl fawr i ti Meic ar y ffordd — ond cymer ofal.

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da



CARTREF HENOED



Caernarfon
(0286) 4652

DINORWIG

Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

Dathlu'r Pasg: Cynhaliwyd yr ail o wasanaethau undebol, y tro yma yng Nghapel Sardis a hynny ar Sul y Blodau. Thema'r gwasanaeth oedd 'Dathlu'r Pasg'. Fel y gwasanaeth undebol hwnnw a gynhaliwyd cyn y Nadolig, profodd y gwasanaeth yma yr un mor fendithiol ac mae'r diolch am hynny yn ddyledus i bawb a gyfranodd mor dda i sicrhau gwasanaeth safonol iawn. Yn ôl yr ymateb a gafwyd ymddengys bod galw am gynnal mwy o wasanaethau tebyg. Fe wnaed casgliad o £21 tuag at gronfa prynu cadair olwyn newydd i Dewi Jones o Fethel.

Brysiwch wella: Miss Florrie Davies, 3 Bro Elidir, sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar wedi iddi gael codwm. Hefyd brysia wella Aaron Thomas, 9 Bro Elidir a fu yn Ysbyty Gwynedd am driniaeth lawfeddygol.

Cydymdeimlo!: Ein cydymdeimlad a theulu y diweddar Mrs Edith Mary Griffiths, gynt o 8 Bro Elidir, a fu yn byw yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Cynhaliwyd yr angladd ym Mynwent Macpelah, Deiniolen, ar y 18fed o Ebrill.

Gwerin y Coed: Nos Wener, Ebrill 10, cynhaliwyd Noson Goffi a Sioe Bypedau yn y Ganolfan. Roedd yn ddiweddglo i wythnosau o waith

prosiect yn ymwneud â gwastraff a sbwriel. Ysgrifenydd y ddwy ddrama fer gan y plant. Hefyd hwy oedd yn gyfrifol am wnio'r pypedau allan o becyn Grŵp Cadw Cymru'n Daclus. Dymuniad y plant yw cael prynu bin sbwriel i'r pentref gyda'r elw ariannol a wnaed o'r Noson Goffi.

Yna prynhawn dydd Sadwrn, Ebrill 11, fel rhan o prosiect glanhau gwanwyn / Cadw Cymru'n Daclus, cliriwyd sbwriel o gwmpas safle bysiau yn yr Allt Ddu, Dinorwig, a'r 'Anglesey Barracks' ym Mharc Padarn. Mewn ychydig dros ddwy awr, casglwyd dros 12 stôn o sbwriel.

Ni fuasai'r ddwy fenter wedi llwyddo heb y gefnogaeth a'r adnoddau a gafwyd. Mae'r diolchiadau yn ddyledus i Mr M. P. Jones, Goruchwyliwr Cynorthwyol Glanhau Cyhoeddus Cyngor Dosbarth Arfon am ddod i siarad â'r plant ac am fenyg cryf pwrpasol, sachau duon, bathodynau, ac am drefnu casglu'r sachau llawn. Cafwyd menyg a chap cynnes bob un gan gwmni Storfa Bwmp Dinorwig, Llanberis. Sicrhodd cefnogaeth ac adnoddau swyddfa Ymgyrch Cadw Cymru'n Daclus yng Nghaernarfon yr union ysbrydoliaeth oedd ei angen arnom.



Aelodau Clwb Gwerin y Coed yn casglu sbwriel. Llwyddwyd i gasglu dros 12 stôn o sbwriel mewn dwy awr.

Eglwys St. Mair: Cafwyd oedfaon cofiadwy eto eleni dros Wyl y Pasg. Arweiniwyd y gwasanaeth ar fore Gwener y Groglith gan y Parch Ganon R. Glyndwr Williams a chan y Deon Gwlad, y Parch Ganon R. Ll. Owen ar brynghawn Sul y Pasg. Hefyd cadwyd at y drefn flynyddol o orymdeithio tu ôl i'r Groes trwy'r pentref ar brynghawn Gwener y Groglith. Wrth ddiolch i deulu Bron Eilian am lanhau'r Eglwys yn ystod y ddau fis diwethaf, Mr a Mrs I. Phillips fydd yn cario allan y gwaith yn ystod misoedd Mai a Mehefin. Y drefn gyda blodau yr Allor fydd fel a ganlyn: Mai 3/10: Teulu 4 Bro Elidir; Mai 17/24: Teulu Creigle gynt. Diolch i Mrs M. Fleming am lunio'r rhestr blodau allor am y flwyddyn.

Hefyd mae'r blychau cenhadol wedi dod i law a bydd rhestr o enwau cyfranwyr a'u cyfraniadau yn cael eu rhoi i fyny yn yr Eglwys. Diolch i bawb am gefnogi gwaith Cymorth Cristnogol.

Chwilio am Ohebydd Newydd: Mae


ein gohebydd dros y blynyddoedd diwethaf, Mr D. J. Thomas, wedi penderfynu rhoi gorau iddi ac o'r herwydd mae'r Eco yn chwilio am ohebydd newydd. Mae ein dyled yn fawr i Mr Thomas gan iddo sicrhau bod newyddion y pentref yn cael eu cynnwys yn yr Eco bob mis. 'Roedd yn ysgrifennwr difyr a diddorol dros ben a bydd llawer yn gweld colli darllen ei gyfraniad misol. Roedd ei ddawn unigryw o ysgrifennu ei nodiadau yn golygu bod pobl o bentrefi eraill yn cael yr un pleser a phobl Dinorwig o ddarllen yr hyn oedd ganddo i'w ddweud. Diolch i chwi Mr Thomas.

Mae'n siŵr bod rhywun o'r pentref yn barod i ddod ymlaen i wneud y gwaith. Os ydych a diddordeb yna cysylltwch â J. E. Williams, Allt Riwth, Llanrug.

Diolch: Dymunaf ddiolch yn fawr i bawb a fu mor garedig a chofio amdanaf ar fy mhen-blwydd. Cefais ddiwrnod wrth fy modd — Mrs Mary E. Jones, Ty'n y Fawnog.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491



Llongyfarchiadau i Bryn, mab Mr a Mrs Stanley Jones, 60 Dôl Elidir, am ennill y gadair yn Eisteddfod y Groeslon ar nos Wener, Ebrill 3. Derbyniodd ganmoliaeth uchel gan y beirniad, Y Prifardd a'r Cyn-Archdderwydd Emrys Roberts, am stori sensitif oedd hefyd yn stori gignoeth ar y testun 'Y Storm'.

Cymdeithas Eglwys St. Peris a St. Padarn: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas nos lau, Ebrill 2, dan lywyddiaeth Mrs Anne Parry Jones. Dechreuwyd y cyfarfod trwy weddi gan Mrs Nancy Jones. Croesawyd aelodau newydd a rhai oedd wedi bod yn cwyno yn ystod misoedd y gaeaf, a hefyd y gŵr gwadd, Mr Rol Williams o'r Waunfawr. Rhannodd Mr Williams atgofion, rhai ysgafn a rhai mwy difrif, o'r amser pan oedd bri yng Nghymru ar y Noson Lawen a nosweithiau ysgafn. Diolchwyd iddo ac i'r gwestwagedd, Misses Joyce a Sheila Foulkes, gan Mrs Gracie Roberts. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Katie Williams, a'r enillydd oedd Mrs Hilda Williams.

Diolchiadau: Dymuna Mrs Ruth Jones a'i dwy ferch Mrs Carys Ll. Williams, 12 Coed y Glyn a Mrs Carol Terr, Marteg, Llanberis, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yne profedigaeth. Diolch yn arbennig i feddygon, nyrsus staff clinic Llanberis.

Dymuna Mrs Annie M. Evans, Bron Eifion, 28 Stryd Goodman, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau lu, am y cardiau ac

anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Diolch arbennig i Ronnie a Doris, June a Paul am y parti bythgofiadwy.

Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn: Enillwyr 1/4/92 yw — £35: Mrs C. Roberts, 4 Coed y Ddôl, Llanberis (142); £25: Mrs Jackson, 11 Maes Padarn, Llanberis (65); £15: Mrs N. Williams, Tyddyn Andrew, Bethel (9); £10: Mr C. Roberts, Newton Hall, Llanberis (40); £5: M. J. Williams, 6 Victoria Terr., Llanberis (76).

Cyfarfod Gweddi Byd-eang y Chwiorydd Eglwys Llanberis: Cynhaliwyd y cyfarfod uchod yng Nghapel Nant Padarn dan lywyddiaeth Mrs Hannah Jones. Cymerwyd rhan gan aelodau o Gapel Coch, Jerusalem, Eglwys Sant Padarn ac Eglwys Sant John Jones. Traddodwyd yr anerchiad gan Mrs Dilys Bayliss a'r cyfeilydd oedd Mrs Maria Pritchard.

Cynhaliwyd Oedfa Gymun undebol yn Nant Padarn fore Gwener y Groglith. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch Gwynfor Williams a'r Parch John Pritchard. Mrs Cassie Owen oedd yr organyddes.

Cymanfa Ganu'r Annibynwyr: Cynhaliwyd y Gymanfa hon yng nghapel Jerusalem ddydd Sul, 12 Ebrill. Cafwyd eitemau gan aelodau Ysgolion Sul y cylch gan gynnwys plant Ysgol Sul Nant Padarn ac aelodau Ysgol Sul Jerusalem. Llongyfarchiadau i'r plant ac i'r rhai a fu wrthi yn eu dysgu.

Capel Coch: Daeth tymor y cyfarfod plant a gynhaliwyd yng Nghapel Coch bob prynhawn Mawrth i ben erbyn hyn. Diolch i'r rhai a fu'n cynorthwyo'r gweinidog i gynnal y cyfarfodydd ac yn arbennig i Mrs Vera Griffith am ei chymorth.

Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd bnawn lau, 2 Ebrill, pan gafwyd sgwrs am y Pasg yng nghwmni'r gweinidog. Paratowyd paned gan Mrs Maimie Parry a Miss Jennie Wheldon Jones.

Bydd y merched yn mynd i Sasiwn y Chwiorydd a gynhelir eleni yn Yr Wyddgrug, ddydd lau, Mai 7fed.

Noson lwyddiannus: Cafwyd noson lwyddiannus iawn yng Ngwesty Dolbadarn ar nos Sadwrn, Ebrill 4, pan ddaeth nifer dda o bobl ynghyd i wrando ar Dafydd Iwan a Hefin Elis yn canu. Trefnwyd raffl gan Roy Griffith a Robin Jones a'r enillwyr

oedd — Lona Jones; Islwyn Williams, Brynrefail; Andrew Jamieson, Caernarfon; Gracie Jones, Awstralia; Christine Owen; Anwen Owen, Llanrug; Noel Davies; Dafydd, Mona, Llanrug; a Mairwen Baylis.


Bydd y cyngerdd nesaf, yr olaf o'r gyfres, ar nos Sadwrn Mai 2, eto yng Ngwesty Dolbadarn, gyda Hogia'r Wyddfa a Chôr Meibion Dyffryn Peris. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod y tymor.

Llongyfarchiadau i Noel Davies (Plaid Cymru) ar ennill etholiad Cyngor Sir Gwynedd yn Ward Padarn.

DIOLCH

Dymuna Noel Davies ddiolch i bawb a bleidleisiodd iddo yn isetholiad Cyngor Sir Gwynedd ar 23 Ebrill.

Diolch i'r tîm a weithiodd mor galed i sicrhau ei lwyddiant.



POST MORTEM

Pŵer y Torïaid

David Steel mewn cyfweiliad rai dyddiau wedi'r etholiad a ddywedodd: 'The Conservative party is the party of power: all the others are parties of ideals'. Ac y mae etholwyr Lloegr (Lloegr sylwch) wedi dangos eu bod am ddal gafael yn y pŵer hwnnw: y pŵer hwnnw sy'n rhoi'r hawl iddynt i reoli yn ddiwrthwynebiad dros wledydd yr Alban a Chymru.

Dewis Lloegr oedd dewis y Torïaid. Mewn chwech allan o naw rhanbarth yn Lloegr roedd pleidlais y Torïaid yn 45% neu'n uwch. Dim ond yn rhanbarthau Gogledd Lloegr (50%), Gogledd-orllewin Lloegr (45%) a Swydd Efrog / Glannau Humber (45%) roedd canran y bleidlais i'r Blaid Lafur yn uwch na'r canran Torïaid. A'r sefyllfa drwy Loegr gyfan oedd: Torïaid 46% o'r bleidlais, Lafur 36% o'r bleidlais.

Yn yr Alban a Chymru, roedd y sefyllfa'n hollol wahanol. 26% o'r bleidlais a gafodd y Torïaid yn yr Alban (a hawlio 11 sedd) a 28% o'r bleidlais yng Nghymru (a hawlio 6 sedd). Ar y llaw arall, roedd y bleidlais i Lafur a'r Cenedlaetholwyr yn 60% yn yr Alban ac yn 59% yng Nghymru.

Felly, tra bo bron i hanner poblogaeth Lloegr am gael eu rheoli gan y Torïaid, cwta chwarter etholwyr Cymru a'r Alban a ddewisodd hynny.

Pŵer y Wasg

Rhoddwyd cryn sylw yn ystod yr ymgyrch etholiadol i'r rhan a chwaraewyd gan y Wasg Seisnig — yn enwedig y papurau dyddiol ac wythnosol sy'n gefnogol i'r blaid Dorïaid; ac y mae mwy o'r rheini nac o unrhyw bapurau eraill.

Diddorol oedd sylwi sut y bu i'r arch-bapur Torïaid hwnnw — *The Sunday Times* — ddangos canlyniadau'r etholiad ar ffurf map dros ddwy dudalen. Mae'r dewis o dafluniad y map yn dangos yr Alban a gogledd Lloegr yn wasgedig — ac o ganlyniad, yn dangos 'arwynebedd' y lliwiau coch (Llafur); melyn (Rhyddfrydwyr Democrataidd) a llwyd (Plaid Genedlaethol yr Alban) yn llawer llai nac 'arwynebedd' y lliw glas (Tori) yng ngweddill Lloegr.

Yn yr un modd, oherwydd fod etholaethau Torïaid yn tueddu i fod yn wledig, ac felly'n fawr o ran arwynebedd, roedd 'enillion' y Torïaid mewn lliw glas llachar (er mai dim ond deg yn unig oedd drwy wledydd Prydain) yn llawer amlycach nac enillion y Blaid Lafur mewn coch llachar (er fod 44 o'r rheini).

Ôl-nodyn

Yng Nghymru, Plaid Cymru oedd yr unig blaid i beidio colli sedd. Enillodd y Torïaid 3 sedd, ond collwyd 3 arall. Enillodd y Blaid Lafur 3 sedd, ond collwyd dwy arall. Colli dwy sedd oedd hanes y Rhyddfrydwyr Democrataidd, a Phlaid Cymru yn ennill un sedd ychwanegol, ond gan ddal eu gafael yn y tair oedd eisoes yn eu meddiant.

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

DYFODOL ERYRI?

O dan Ddeddf Cynllunio a Iawndal 1991 mae'n ofynnol i bob Parc Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr baratoi Cynllun Lleol erbyn 1992. Ddechrau fis Ebrill eleni anfonwyd dogfen ymgynghorol i lyfrgelloedd cyhoeddus Gwynedd ac i bob cyngor cymuned o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. 'Dyfodol Eryri?' yw teitl yr adolygiad polisi hwn, a disgwylir ymatebion iddo erbyn diwedd Mai. Cwta fis sydd gan y cyngorau cymuned a'r cyhoedd yn gyffredinol i ymateb i ddogfen swmpus sy'n ymwneud â materion polisi y Parc Cenedlaethol. Teg gofyn a yw'r amser a roddir i'r fath ymgynghoriad yn ddigonol.

Pan sefydlwyd y Parciau Cenedlaethol yr oedd iddynt ddau amcan statudol: gwarchod harddwch naturiol a hyrwyddo mwynhad y cyhoedd o'r ardal. I ofalu fod yr amcaion hyn yn cael eu gwireddu mae Pwyllgor i bob Parc. Mae 27 o aelodau i Bwyllgor Parc Cenedlaethol Eryri — 14 aelod o Gyngor Sir Gwynedd, 4 aelod o bedwar cyngor dosbarth Gwynedd (nid oes cynrychiolydd o Fôn), a naw aelod enwebedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae rhan fechan o blwyf Llanddeiniolen o fewn Parc Eryri (copaon Elidir fach ac Elidir fawr), a rhan bur helaeth o blwyf Llanberis. Roedd y cyn-gynghorydd Francis Jones o Lanberis yn Is-gadeirydd pwyllgor y Parc ac y mae'r darlledwr Dei Tomos o Nant Peris yn un o'r naw aelod enwebedig.

Beth yw pwrpas y Ddogfen Ymgynghorol?

Mae i'r adolygiad polisi dri pwrpas. Yn gyntaf, mae'n cyhoeddi bwriad Pwyllgor y Parc Cenedlaethol i gychwyn arolwg ar ei bolisiau. Yn ail, mae'n canolbwyntio sylw'r cyhoedd ar y materion hynny sy'n effeithio fwyaf ar y Parc Cenedlaethol, ac yn dylanwadu ar gynllunio a rheoli y Parc dros y pum mlynedd nesaf. Ac yn drydydd, mae'n symblu diddordeb yng ngwaith y Parc ac yn annog y cyhoedd i gymryd rhan yn ffurfio'r polisiau.

Ond fel y dywedwyd eisoes, prin yw'r amser sydd ar gael i'r cyhoedd wneud hynny.

Pa fath bolisiau?

Mae'n rheidrwydd ar i'r polisiau gadw at amcanion statudol y Parc. Gyda hynny mewn golwg, y bwriad yw datblygu pedair thema ar gyfer y polisi arfaethedig.

Thema 1: Hyrwyddo tirwedd diwylliannol unigryw Eryri a chyfeirio mwy o adnoddau tuag at gyfoethogi cymeriad diwylliannol Eryri.

Thema 2: Creu ymwybyddiaeth ddyfnach o waith Pwyllgor y Parc Cenedlaethol ac ennill cefnogaeth ac ymgyfranogiad y gymuned leol ym mholisi a rhaglenni'r Parc.

Thema 3: Hyrwyddo polisiau a rhaglenni 'y gellir eu cynnal' na fydd yn gwrddo â chymeriad diwylliannol

ac amgylcheddol Eryri.

Thema 4: Meithrin cysylltiadau a rhannu profiadau ag 'ardaloedd eraill a warchodir' sy'n wynebu problemau a phwysau tebyg i'r rhai sy'n wynebu Eryri.

Yn ôl yr adolygiad, mae'r themâu hyn yn adlewyrchu gwledigaeth y Parc Cenedlaethol — 'gwledigaeth sydd yn cadarnhau ymrwymiad Pwyllgor y Parc Cenedlaethol i'r gymuned leol ac i'r ddelfryd ehangach o dirweddau wedi'u gwarchod.'

Y Gymuned Leol

Un o'r swyddogaethau y mae'r Parc yn galw amdanynt yw'r hawl i gynnwys 'buddiannau cymdeithasol ac economaidd y gymuned leol' o fewn eu strwythur. Fel rhan o'r strwythur hwn maent yn galw am bedair math o gynhaliaeth — cynhaliaeth ecolegol (sef yr amcaion statudol); cynhaliaeth economaidd — gwneud y defnydd gorau dros dymor hir o'r adnoddau naturio a'r rhai o waith dyn, er mwyn cynnal, a gwella, safonau byw pobl. Cynhaliaeth ddiwylliannol — gwarchod ansawdd y golygfeydd, nodweddion hanesyddol, iaith a thraddodiadau, a'r cyfan sydd yn creu ardal unigryw. Cynhaliaeth gymdeithasol — cadw cyfleoedd i gymunedau o bobl fedru byw a gweithio.

Eryri — lle arbennig i'w amddiffyn
Mae'r ddogfen yn trafod nifer o

faterion polisi — cadwraeth natur a'r tirwedd, archaeoleg a thirwedd hanesyddol, treftadaeth bensaernïol, heddwch a thawelwch, gwaredu a rheoli gwastraff a pherchenogaeth tir. Ond yn bwysicach, mae'n sôn am Eryri fel lle i fyw ac i weithio ynddo — y datblygiadau gwledig, anheddau, ynni, ffermio a choedwigaeth. Yn olaf, trafodir twristiaeth, lletya, carafanau, ffyrdd a thrafnidiaeth.

Mae'n ddogfen fanwl sy'n cyffwrdd â nifer o broblemau sy'n wynebu'r Gymru wledig ar ddiwedd y ganrif hon, ac y mae'n haeddu ystyriaeth lawn a thrwyadl gan ein cyngorau, yn enwedig y rheini o fewn ffiniau'r Parc. Ond yn bwysicach, mae'n haeddu sylw gan y cyhoedd yn gyffredinol, fel y dywedir yn yr Adolygiad 'Cyfaill gorau'r Parc Cenedlaethol yw'r farn gyhoeddus'. Byddwch yn rhan o'r farn gyhoeddus honno, a llenwch yr



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

holiadur sydd ar gael gyda'r ddogfen. Byddwch yn rhan o ddyfodol Parc Cenedlaethol Eryri.

Prosiectau sy'n Ymfalchïo yng Nghymru

Mae ffurflenni cais ar gyfer Gwobrau Tywysog Cymru 1992 ar gael yn awr. Gall cynllun gwobrwyo eleni, a lansiwyd ddechrau Ebrill, edrych ymlaen at weld prosiectau amgylcheddol sy'n ymfalchïo yng Nghymru, lle nad oes cyfyngiad ac eithrio'r dychymyg.

Cynhelir y gwobrau gan Bwyllgor Tywysog Cymru, sydd wedi ei seilio yng Nghaerdydd ac a sefydlwyd dros 20 mlynedd yn ôl, pan oeddent yn redwyr blaen grwpiau o'r fath.

'Rhoddwyd mwy o adnoddau i mewn er mwyn denu rhagor i gymryd rhan yn y cynllun, a diolch i nawdd Dŵr Cymru,' meddai David Cox, Cyfarwyddwr Pwyllgor Tywysog Cymru.

'Bydd y beirniad yn chwilio am ychydig bach o ddychymyg ac ymdrech ychwanegol sy'n creu rhywbeth tu hwnt i'r cyffredin,' ychwanegodd Mr Cox.'

Mae enillwyr a phrosiectau yn y gorffennol wedi amrywio o weiglodd flodau gwyllt a grewyd gan blant ysgol, tacluso is-dyfiant a diogelu capel hanesyddol gan grŵp Scowtiaid, i'r gofal eithriadol dros gynllunio a thirlunio ffatri newydd gan gwmni rhyngwladol.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau eleni yw Mehefin 15fed a rhaid cwblhau prosiectau o fewn 18 mis o'r dyddiad hwn.

Bydd y panel beirniadu rhagbrofol yn ymweld â phob prosiect cyn Medi 1af, bydd y beirniadu terfynol yn digwydd yr wythnos olaf ym Medi a

chyhoeddir y canlyniadau yn Nhachwedd.

Gall unrhyw un sy'n dymuno ymgeisio, neu sydd eisieu rhagor o fanylion gysylltu â swyddfa'r Pwyllgor, sef 378 Stryd Fawr, Bangor. Ffôn: (0248) 353590.

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am ddanfôn ordor i'ch cartref yn ardal Llanrug.

CEIR CYMRU GAREJ MINFFORDD, BETHEL

Ffôn: 670451

Mae Garej Minffordd bellach yn rhan o gwmni garej teuluol sydd wedi ei sefydlu ers deugain mlynedd. Yma mae gennym weithdy trwsio, bae MOT, a gweithdy peintio ac atgyweirio cyrff ceir. Rydym yn cynnig y gwasanaeth gorau am y prisiau isaf posibl ac yn barod i roi pris ar unrhyw waith cyn ei ddechrau! Mae car benthyg i'w gael am ddim bob amser!


Yma, ac yn y Gaerwen, Môn, mae gennym y dewis gorau, a'r rhataf posibl, o geir ail-law safonol. Yn ystod 1991 gwerthodd ein cwmni dros 1,000 o geir ail-law — record ymysg y goreuon. Llwyddwyd i wneud hynny am elw bychan a thrwy hysbyseb o ganmoliaeth o'r naill i'r llall (nid trwy hysbysebu drud mewn papurau newydd).

Rydym yn llwyddo i fynd o nerth i nerth ac yn eich sicrhau chwi ein cwsmeriaid na fedrwch ein curo am bris na safon.

CEIR CYMRU
CWMNI CYMREIG YN EDRYCH I'R DYFODOL

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

Ar Agor
9-7pm
9-7pm Sadwrn
Argau
Sul a Mercher



Dewis eang o Welyau Sengl a Dwbl. Dewis eang o '3 Piece Suites'. Lleni 'Venetian' a Lleni 'Roler'. Gwaith Contract. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc — allwch chi fforddio prynu o batrymau?

WAUNFAWR 291

NADROEDD YNG NGHYMRU

Tra'n ymweld â mynwent Pistyll (Nefyn) ar ddiwrnod poeth ym mis Awst gwelais wiber yn torheulo ar lwybr concrit sy'n arwain at yr eglwys. Roedd ei phen yn y gwair ac ni wyddai fy mod yno am wn i. Teimlwn yn ddiogel rhag ei brathiad gwenwynig yn fy Wellingtons uchel a mentrais roi pwniad iddi efo blaen fy meiro. Ond arhosodd y wiber yn ei hunfan am funud cyfan cyn llithro'n ddiog i stridedyn chwe modfedd o wair rhwng y llwybr a'r wal. Nis gwelais wedyn, roedd patrwm tywyll igam-ogam ei chroen yn peri iddi ddiflannu yn y tyfiant.

Gall y wiber fod yn llawer mwy ymosodol. Un diwrnod gwelodd cyfaill i mi, Duncan Brown o'r Waunfawr, gorff gwiber ar y ffordd, wedi'i lladd gan olwyn cerbyd yn ei dyb ef. Estynnodd ei law i'w chyfeiriad er mwyn archwilio'r corff, ond yn sydyn cododd ei phen blaen a'i frathu. Chwyddodd ei fraich a threuliodd Duncan druan noson yn yr ysbyty. Prin iawn yw achosion o'r fath beth bynnag.

Y mae nadroedd ymysg y creaduriaid mwyaf swil yng Nghymru. Ceir dwy rywogaeth, sef y wiber a'r neidr fraith. Ni wya neb pa mor gyffredin ydynt na beth yn union yw eu dosbarthiad Cymreig. Digwyddodd llawer o golli cynefin yn yr hanner can mlynedd diwethaf ac mae'n debyg y bu gostyngiad yn niferoedd nadroedd o'r herwydd. Ar ôl gweld y wiber ym mynwent Pistyll es ati i chwilio am gofnodion nadroedd, ond sylwais mai prin iawn oedd y wybodaeth amdanynt. Fy mwriad felly yw manteisio ar wybodaeth darllenwyr y papur hwn i gasglu cofnodion (hen a newydd) o nadroedd yng Nghymru, a cheisio gweld a oes newidiadau amlwg wedi bod. Gallaf wedyn fynd ati i gyhoeddi'r canlyniadau. Buaswn yn falch iawn o dderbyn unrhyw wybodaeth gan y rhai hynny ohonoch a ddaeth ar draws nadroedd yng Nghymru. Hoffwn dderbyn y wybodaeth ganlynol:

- ★ dyddiad gweld y neidr os gellir ei gofio, ond buasai'r flwyddyn neu hyd yn oed y ddegawd yn dderbyniol;
 - ★ y math o neidr a welwyd, e.e. gwiber neu neidr fraith os ydych yn sicr o'i rhywogaeth;
 - ★ y safle, mor fanwl â phosibl ac yn ddelfrydol safle grid map;
 - ★ manylion am y cynefin, e.e. ardal eithinog, gwair tal . . . a.y.y.b.
- Hefyd ceir creadur tebyg iawn i neidr, sef neidr ddefaid (slow worm), ond math o ennau goeg heb goesau

ydi hwn. Buaswn yn falch o dderbyn gwybodaeth am y neidr ddefaid yn ogystal.

Anfonwch y wybodaeth, os gwelwch yn dda, i Gwyn Williams, Bryn Awelon, Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd LL57 2AP.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD

43 Glanffynnon LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyr gan yr Adran Drafnidiaeth

W. H. JONES

TRYDANWR

Green Bank

Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: Llanberis

871470

Cottractau Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

CONCRO'R CEFN DU

Ddiwedd Ebrill cynhaliwyd y ras fynydd gyntaf o fewn bro'r Eco. Un o gyfres o chwech ras 'nos Fawrth' oedd hon, cyfres a fu'n hynod lwyddiannus y llynedd. Bwriad y trefnwyr oedd cynnal cyfres o rasmus gweddol fyr ar ddechrau'r tymor rhedeg mynydd, a gwobrwyo ar sustem amser yn hytrach na phwyntiau. Mae'n ymddangos yn gymhleth ar yr olwg gyntaf, ond mae mathemategwyr o safon (!) ymhlith y trefnwyr, ac yr oedd pob rhedwr wedi ei fodloni ar y dull o sgorio y llynedd. Colin Jones, Pontrug a Colin Donnelly, Llanberis, ddaeth yn ail a thrydydd yn y gyfres y llynedd. Tybed a gaiff bro'r Eco ei chynrychioli ymhlith y buddugwyr eleni?



Rhai o'r rhedwyr yn cychwyn am Cefn Du.

Roedd ras Cefn Du yn cychwyn o Lanberis, gan ddilyn y llwybr o Lainwen Uchaf i Dy Du, ac yna i fyny trwy'r hen chwarel i Fwlch y Groes — llwybr hynod o wlyb ar brydiau. O Fwlch y Groes, anelu am gopa'r Cefn Du, cyn troi a charlamu i lawr y llethrau am Ddinas Tŷ Du ac yn ôl i Lanberis. Colin Donnelly o Glwb Eryri oedd buddugwr ras nos Fawrth, mewn amser o 26 munud a 38 eiliad. Roedd Dafydd Roberts (Hebog) a Dei Huws (Eryri) bron i funud yn arafach yn ail a thrydydd. Gwynfor Owen, Llanrug, oedd yr hogyn lleol nesaf yn nawfed mewn 29 munud. Roedd dros 50 o redwyr yn y ras, arwydd sicr fod y gyfres yn boblogaidd a llwyddiannus.

Mae tair ras ar ôl yn y gyfres Moel Wnion, Llanllechid (Mai 12); Yr Eifl, Trefor (Mai 19) a'r Foel Lus, Penmaenmawr (Mai 26). Yn y cyfamser bydd cyfle i wyllo (neu redeg) mewn ras leol arall, gan fod Ras Moel Eilio yn cael ei chynnal ar Fai 9, gan gychwyn o Lwyn Celyn, Llanberis.

I'r rhai sydd â diddordeb mewn rhedeg rasmus ffordd yn hytrach na rhai mynydd, mae dwy ras leol o fewn y mis nesaf: Ras 10k Rhostryfan ar Fai 6ed a Ras 10m Caernarfon ar Fai 24ain.

x x x

POB LWC i'r plant a'r bobl ifanc o fro'r Eco fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym mis Mai. Gobeithio y cawn adrodd am eich llwyddiant yno yn y rhifyn nesaf.



I DDYSGU
DREIFIO EFO
STAN

(Ysgol Yrru Rhiwen)

Ffoniwch

Bangor

364143

RHAGHYSBYSIAD

**CYNGERDD BLYNYDDOL
LLEISIAU'R GWEUNYDD**

yn Neuadd Bentref Rhiwlas
Nos Wener, Medi 25, 1992
am 7 o'r gloch

Bydd elw'r noson at Gronfa Llinos Haf
Manylion pellach yn rhifyn nesaf o'r Eco

**DAVID
CLOUGH**

Ynysoedd

WAUNFAWR

Ffôn: 282

Paentio a Addurno
Gwaith Atgyweirio
'Estimates' am ddim

ECO'R IFANC


GAN
LUNED MAIR



JÔCS

Faint o  ?

Faint o  ?

Faint o  ?

Faint o  ?



WYN: Gweinydd! Gweinydd!
Mae yna bry' yn y pwddin 'ma!
GWEINYDD: Peidiwch â
gweiddi mor uchel neu mi fydd
pawb yn y lle yma eisiau un!

DEL: Dydy fy fflachlamp i ddim
yn gweithio.

BETHAN: Falla na'r batri sydd
wedi rhedeg allan.

DEL: Na, ma' nhw'n dal i fod
yma!

IFAN: Mae'nr rhaid fod y bobol
sy'n byw drws nesaf i ni yn
sobor o dlawd

EIFION: Beth wnaeth i ti
feddwl hynny?

IFAN: Byddai'n werth i ti weld
yr helynt a'r ffwdan oedd yno
pan lyncodd y babi geiniog
bore ddoe.




MALWODEN DDU: Wyt ti'n
cael trafferth i wneud
penderfyniad?

MALWODEN FROWN: Wel,
yndw a nac ydw!

MIG: Mae'r 'sgidiau newydd
'ma yn brifo fel coblyn!

MOG: Pa ryfedd — dydy nhw
ddim ar y traed iawn!

MIG: Does gen i ddim traed
arall!



S	T	O	R	U	RH	P	O	L	RH	U	S
P	E	T	R	Y	A	L	A	E	O	I	M
TH	A	RH	O	CH	I	W	N	L	M	T	CH
S	O	R	O	O	S	I	O	TH	B	CH	L
G	T	W	A	A	R	O	G	S	W	M	Y
W	W	T	A	L	E	I	A	W	C	A	C
A	N	A	G	W	E	I	T	O	N	G	W
R	E	N	D	A	G	L	C	Y	L	CH	E
R	A	G	E	R	A	S	O	I	O	A	L
M	S	G	W	A	R	M	A	G	D	A	D
T	W	FF	I	L	L	NG	O	I	R	T	CH
W	S	CH	I	L	RH	S	T	O	A	A	R
T	H	E	C	S	A	G	O	N	O	L	M
A	C	D	CH	S	T	O	R	I	T	W	R

**BETH YW ENWAU'R SIAPIAU YN Y LLUN
GYFERBYN?**

**FEDRWCH CHI DDOD O HYD IDDYNT, A
PHEDWAR SIÂP ARALL HEFYD, YN Y
SGWÂR GEIRIAU YMA?**

SWIGL



ENW: _____

CYFEIRIAD: _____

OED: _____

**BETH AM GREU LLUN O'R SWIGL YMA.
BYDD GWOBR I'R UN GORAU.
ANFONWCH EICH CYNNIGION I:
LLEIFIOR, Ffordd Yr Orsaf,
LLANRUG.**

TIPYN O DDAWNSWYR



Partïon dawnsio gwerin dan 10 a dan 12 oed Ysgol Gynradd Llanrug fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Rhuthun. Pob lwc blantos.

COLEG PRIFYSGOL GOGLEDD CYMRU Adran Efrydiau Allanol **Ysgol Undydd HANES LLEOL — LLANBERIS**

**DYDD SADWRN, MEHEFIN 6, 1992 am 9.30 a.m.
YN AMGUEDDFA'R GOGLEDD, LLANBERIS**

- Siaradwyr:*
- 9.30 JOHN LL. WILLIAMS
Y Rhufeiniaid a Hafod Lydan
- 11.00 MARY VAUGHAN JONES
Rhai o Naturiaethwyr Cynnar Ardal Llanberis
- 12.00 DAFYDD WHITESIDE THOMAS
Hanes Cychwyn Band Pres Llanrug
- 2.30 W. ALISTER WILLIAMS
Hugh Rowlands, V.C.
- 3.30 EDGAR WYN PARRY
Y Parchedig Peter Bayley Williams

I sicrhau lle cysylltwch â Mrs Nerys Hague, Adran Efrydiau Allanol, G.P.G.C., Bangor LL57 2DG erbyn 23 Mai 1992. Dylech amgau'r ffi o £3.50 gan wneud sieciau yn daladwy i 'G.P.G.C.'

RHODDION

Cydnabyddir y rhoddion canlynol yn ddiolchgar:

£5.50: Mrs McCarthy, Lerpwl.
£5.00: Mrs I. Williams, Morfa Bychan; Mrs G. M. Jones, Dalar Deg, Llanrug; Mrs Ellen Williams, 2 Y Bwthyn, Deiniolen; Mrs Nan Williams, Llandudno; Mr a Mrs G. S. Jones, Gwynant, Nant Peris.
£3.50: Mrs Williams, Corby; Mrs Evans-Munro, Corby; Mrs B. Williams, Caergybi; Mr Rowlands, Little Sutton; Mrs Griffith, Caerhun; Mr Alun Williams, Waunfawr; Mrs Helen Francis, Caer; Mrs B. Williams, Bishop Auchland; Mr O. Jones, Llangefni; Mrs Sidebotham, Stockport.
£3: Mrs Ruth Jones a'i dwy ferch, Mrs Carys Williams, Coed y Glyn, Llanberis a Mrs Carol Torr, Marteg, Llanberis; Teulu Llys Myfyr, Deiniolen.
£2.50: Mrs S. O. Edwards, Llanrug.
£2: Mrs Enid Jones, Tal-y-sarn; Meryl a Stephen, 10 Stryd Fawr, Deiniolen Mari a Billy, 6 Ffordd Deiniol, Deiniolen; Mrs Ann Evans, Bron Eifion, Stryd Goodman, Llanberis.

PWYSIG

**MAE ANGEN GOHEBWYR
NEWYDD AR GYFER
CEUNANT A DINORWIG.**

**OS HOFFECH
GYNORTHWYO'R ECO
DRWY LENWI'R DDWY
SWYDD BWYSIG YMA
GOFYNNIR I CHWI
GYSYLLTU Â:**

Hefin Jones
Pant Mwyn, Llanrug
(Caernarfon 3838)

neu
J. E. Williams
Allt Riwth, Llanrug

**Diolch ymlaen llaw am bob
cymorth.**

CEUNANT

Gohebydd: Gwenno Parri,
Morwel (Waunfawr 321)

Bedydd: Pnawn Sul, Ebrill 5ed, bedyddiwyd Gareth Ieuan, mab Gwenno a Keith Doyle, Bethesda. Gwasanaethwyd gan y Parch John Morris.

Llongyfarchiadau i Einir Parri, Morwel, ar ei hapwyntiad fel athrawes yn Ysgol y Gelli, Caernarfon. Bydd yn dechrau ar ei swydd newydd ym mis Medi.

Croeso i Tristan Larsen, Bodafon, gwerthwr newydd yr Eco yn y Ceunant.

Diolch i Efan a Helen Parri a'r teulu a fu'n gwerthu'r Eco yn y Ceunant ers y rhifyn cyntaf yn Chwefror 1976.



Ysgol newydd Tan-y-Coed, Penisarwaun, ar fin bod yn barod i'r plant a'r gymuned.

Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri

am brisiau rhesymol

**ELWYN
PRITCHARD**

Parc Padarn, Llanberis

Ar agor Llun - Gwener
10.00 - 3.30

I gysylltu tu allan i'r oriau
hyn ffoniwch

**Llanberis 870922
neu Bangor 351427**

GAIR GAN DELYTH . . .

Wel, sut mae'r hwyl yn yr hen wlad ar y funud? Iawn gobeithio, er fod y tywydd yn ôl be' dwi'n glywed yn eithriadol o oer. Gwahanol iawn i'r tywydd yma mae'n rhaid dweud — gan nad oes diferyn o law wedi disgyn ers deufis bellach.

Mae'r gwair yn felyn ym mhobman a'r dŵr yn brysur troi'n frown. Mae'r fforestydd o'n cwpas ar dân yn ddyddiol, ac ogle mwg dros y lle bob bore. Dim glaw tan o leiaf fis Mai/Mehefin medda nhw!

Mae bywyd yn yr ysgol mor brysur ag erioed, ond mae'r nosweithiau rhieni drosodd rŵan, yn ogystal â'r holl adroddiadau! Profiad gwahanol oedd sgwennu'r cyfan yn Saesneg a nhrwyn i yn y geiriadur yn bur aml!

Mae llawer o ddathlu wedi bod yma'n ddiweddar gan gynnwys dathliadau lliwgar Blwyddyn Newydd y Tsieniaid, diwrnod Cenedlaethol Brunei, a dechrau Ramadan wrth gws. Chawn ni ddim bwyta nac yfed yn gyhoeddus am fis cyfan, ond ar ôl dweud hynny, mae'r Mwslemiaid yn gorfod llwgu drwy'r dydd tan mae'r haul yn machlud.

Bûm drosodd i Limbang, Sarawak y dydd o'r blaen, ac fe dreuliaid ddiwrnod cyfan mewn 'longhouse'. Profiad arbennig a dweud y lleia, ac fe ddysgais lawer am eu ffordd o fyw. Nid Mwslemiaid oedd y trigolion ond Cristnogion gan eu bod yn perthyn i'r llwyth 'Iban'. Pawb hefo croes ar ddrws eu tŷ, ac ambell un efo addurniadau Nadolig ar hyd y

nenfwd! Dw i wedi cael gwahoddiad i fynd yn ôl atynt ar Fehefin y cyntaf i ymuno mewn dathliad arbennig — dawnsio a chanu drwy'r nos! Mi fydd yn brofiad gwahanol iawn, ond yn anffodus mae'n ddiwrnod ysgol! Ta waeth, dwi'n siŵr y gallaf ymweld â hwy ar ddiwrnod arall.

Mae yna 500 o bobl yn byw yn y 'longhouse' arbennig yma, ac yr oedd yn rhaid cael caniatâd gan y pennaeth cyn tynnu'r camera allan! Roedd y 'tŷ' yn swnllyd iawn, gyda phlant o bob oed yn rhedeg ar ein holau, y cŵn yn cyfarth, a'r oedolion (y merched) yn cogio, magu, neu'n gwneud matiau. Doedd dim modd cyfathrebu'n eiriol yn hawdd iawn, gan nad oedd dim Saesneg ganddynt, ar wahan i un bachgen ifanc o'r enw Johaari, a'r unig eiriau Maleg sydd ar fy ngwefusau i yw 'diolch', 'dau stamp os gwelwch yn dda', 'stryd', 'da iawn' a 'peryl'!

Roedd y 'tŷ' yn lân iawn ac roedd pawb yn ymddangos fel eu bod yn cydfyw yn hapus iawn.

Sôn am y fforestydd ar dân — roedd 'na fflamau anferth reit tu allan i'r lle dwi'n byw y dydd o'r blaen, a'r dynion tan wrthi'n brysur yn ceisio diffodd y fflamau. Doedd

Cefnogwch ein Hysbysebwy


'na fawr o ddifrod dim ond ogle drwg am ychydig oriau.

Wel, mae'r ysgol yn cau am bythefnos ymhen ychydig ac rydw i wedi trefnu mynd i Java a Bali am wyliau bach efo cy-athraws sy'n dod o Landudno. Cewch glywd am hynt a helynt y ddwy ohonom y mis nesaf, felly, tan y tro nesaf —

Hwyl,
DELYTH

Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.
cysylltwch â

**Barrys
GLASS**



Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

COLOFN NAWDD CYMDEITHASOL


Rydym eisoes wedi sôn am ddau fudd-dâl newydd sy'n cychwyn ym mis Ebrill eleni, sef **Lwfans Byw** i'r **Anabl** (*Disability Living Allowance*), a **Lwfans Gweithio** i'r **Anabl** (*Disability Working Allowance*). Mae newidiadau eraill hefyd yn dod i rym yn Ebrill; rheolau sy'n ymwneud ag oriau gwaith ar gyfer **Credyd Teulu** (*Family Credit*) a **Chymorthdal Incwm** (*Income Support*).

O'r 7fed o Ebrill gellwch wneud cais am **Gredyd Teulu** os ydych chi, neu eich partner, yn gweithio am **16 awr neu fwy** yr wythnos. Mae hyn yn leihad o wyth awr yn y nifer o oriau yr oedd rhaid eu gweithio cyn Ebrill.

O'r un dyddiad ni ellwch, fel rheol, hawlio **Cymhorthdal Incwm** os yw nifer yr oriau yr ydych chi, neu eich partner, yn weithio yn **16 neu fwy**. I'r rhai ar **Gymhorthdal Incwm** ac yn gweithio rhwng 16 a 24 awr yr wythnos cyn 7fed Ebrill, mae trefniadau arbennig i sicrhau na fydd y **Cymhorthdal Incwm** yn darfod oherwydd y rheolau newydd.

Os ydych angen ychwaneg o fanylion neu becyn cais am **Gredyd Teulu**, ffoniwch **Llinell Ddi-dâl Adran Nawdd Cymdeithasol** ar **0800 289011**. Mae'r alwad yn rhad ac am ddim, ac fe gewch gyngor ar unrhyw fater arall yn ymwneud â **Nawdd Cymdeithasol** os mynnwch.

BETHEL SCAFFOLDING



BRYN Y CHWILOG, BETHEL
Ffôn: Portdinorwig (93) 670325

- ★ Sgaffaldiau ar gyfer jobsus
- ★ Prisiau cystadleuol
- ★ Ffoniwch i gael estimate yn rhad ac am ddim



**J.M.
JONES**
A'I FEIBION

**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898
(dydd)
Caernarfon 76285
(nos)

GWASANAETH NEWYDD AR GYFER GOFALWYR

Ddydd Gwener, 20 Mawrth 1992, lansiwyd gwasanaeth newydd ar gyfer Gofalwyr yng Ngwynedd. Gwasanaeth teleffôn yw o dan yr enw 'Llinell Gofalwyr Gwynedd', ar gael ar **(0248) 371010**. Y mae hwn yn wasanaeth cyfrinachol, yn cael ei weithredu gan Ofalwyr proffesiynol sydd yn barod i wrando. Y mae'r gwasanaeth ar gael rhwng 5 y prynhawn hyd at 9 y bore dilynol trwy'r wythnos, a phedair awr ar hugain dros y penwythnos.

Os ydych yn gofalu gartref am rhywun eiddil ac mewn oed, rhywun sydd yn wael yn gorfforol neu yn feddyliol, neu rhywun methodig, ieuainc neu hen, pwy bynnag ydych — yr ydych yn 'Ofalwr'. Yng Ngwynedd y mae oddeutu 6,000 o bobl fel chwi, i gyd yn edrych ar ôl rhywun gartref.

Mae'n debyg fod gennych deimladau cymysg am eich bywyd bob dydd. Yn ddigon posib, yr ydych yn pryderu am y person sydd dan eich gofal. Ond yn sicr, ar brydiau, byddwch yn teimlo yn flin gyda theimladau cymysglyd ac yn cael eich cymryd yn ganiataol a bod eich bywyd eich hunan ar goll. Hwyrach eich bod yn gobeithio ymdopi yn well, gyda mwy o wybodaeth. Hwyrach eich bod yn poeni am eich iechyd, neu yn teimlo yn unig ac yn meddwl nad oes neb yn mynd trwy yr un peth â chwi. Nid ydych ar ben

eich hun, y mae llawer o bobl yn yr un sefyllfa.

Menter rhwng Cyngor Gwlad Gwynedd, gofal 'Crossroads', Cyngor Henoed Cymru, Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd ac Awdurdod Iechyd Gwynedd yw hon. Derbyniodd y llinell nawdd o £1,500 oddi wrth BT a dywedodd Geraint Jones, Rheolwr Cenedlaethol BT yng Nghymru: 'Yr ydym yn falch o gefnogi'r fenter newydd yma, sydd yn addas iawn i thema ein rhaglen materion cymunedol y flwyddyn yma. Credaf y bydd y ffaith i ni gefnogi "Llinell Gofalwyr Gwynedd" yn galonddid i gannoedd o Ofalwyr trwy Wynedd.'

Os am fwy o wybodaeth, neu eich bod â diddordeb mewn gwirfoddoli, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â **Mari Boyle, Cynllun Cynnal Gofalwyr. Ffôn: (0248) 370797.**

CWLWM

(yn ystod Rhyfel y Gwlff)

Yn ddwyflwydd oed fe gofiai mam
Y dillad du a'r dagrau;
Am dad 'di mynd at Iesu Grist'
A'r 'rhwyl o golli'r hogiau'.

Blynnyddoedd wedyn, wedi'r drin
Fe gadarnhawyd y ffeithiau —
Am gynllun bier Galipoli
A'r cyrff ar draeth yn ddarnau.

Mewn boc y rhoddwyd medals pres
I gofio'r tad, prin welodd —
Gan roddi parch i'r teulu bach,
Cans hwn 'ei oll a roddodd'.

'Mhen chwarter canrif, wele ddyn
Heb ddysgu dim o'r gwersi;
A myned aeth ei newydd wr
I herio grym y Nazi.

Ar ôl y capel, rhyw bnawn Sul
Daeth cnoc y ddieithr swyddog;
A darn o bapur yn ei law —
A geiriau gwag gweinidog.

'Mae dad 'di mynd at Iesu Grist'
Oedd eto yr esboniad,
A minnau'n gwenu yn fy nghot
Yn ddwyflwydd oed ddi-deimlad.

Agorwyd eto'r boc bach pren,
Ac ychwanegwyd tlysau —
Ond fel y caewyd clo y gist
Cynyddu wna'r cwestiynau.

Ni welais 'rioed fy nhaid — na'm tad
Ond am ychydig ddyddiau;
Ond straeon pentref mynnai'n gryf
Y rhaid o wisgo'r lifrau.

Ar Tumbledown a Goose Green bell
Ymestyn wna'r traddodiad —
Ac ychwanegwyd at y boc
Atgofion 'erchyll brofiad'.

Rwyf heno mewn anialwch cras
Yn disgwyl am yr alwad —
Ai dros fy ngwlad rwyf ar y ffin?
Ai gelyn yw'r Iraciaid?

Mae'r clwm filitaraidd
Fu'n rhedeg trwy y teulu;
Yn crogi heno uwch fy mam
Mewn gweddi uwch ei gwely.

RICHARD LLWYD JONES

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Erw Wen.
Ffôn: C'fon. 3536

Cydymdeimlad: Bythefnos yn ôl daeth y newyddion trist bod gŵr ifanc o'r pentref, a fu mewn coma ers dwy flynedd ar bymtheg wedi damwain ar y ffordd fawr, wedi marw. Nid oedd John Ellis Pritchard, neu John Êl fel y'i gelwid yn y pentref, wedi gwella o'r coma y bu ynddo ers y ddamwain. Wedi'r ddamwain bu ymdrech fawr yn y pentref i godi arian i'w alluogi i ymweld â'r Unold Daleithiau, lle y derbyniodd driniaeth mewn ysbyty yn Philadelphia. Byth er hynny gofaldwyd amdano gan ei rieni yn 8 Bryn Gof. Mae'r pentref yn cydymdeimlo gyda'r teulu yn eu colled.

Pob lwc i blant y pentref sy'n cymryd rhan yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Dymuna Beryl ac Eric Roberts, Gerallt, Erw Wen, ddiolch yn fawr i'w holl deulu a chyfeillion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Arian.

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

Wavell Roberts

CIGYDD

**LONDON HOUSE
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

**Cefnogwch ein
Hysbysebwy**

Emyr Jones

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**

Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

**44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513**



CABS LLANRUG



**Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos**

C'fon 5951

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A
RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

Plaid Cymru: Diolch i bawb am gefnogi'r Ocsiwn Addewidion yn y Ganolfan. Gwnaed elw sylweddol i'r gangen. Mae'r gangen wedi ysgrifennu i ddiolch i Kirk Emery a Neil Thomas o gwmni arwerthwyr Bob Parry am eu cyfraniad arbennig i lwyddiant y noson.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Ann a Dean Clark, Rhes Eilian, ar enedigaeth eu mab bychan, Dewi, ŵyr bach i Grace a John Dawson, Bro Waun, a gor-ŵyr i Mrs G. Jones, Stad Tref Eilian.

Dathlu Pen-blwydd: Dathlodd Katherine Williams, Garddelen, ei phen-blwydd yn 18 oed. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i chi i'r dyfodol.

Adref o'r Ysbyty: Dymunwn wellhad buan i Mrs Ann Jones, Haulfryn; Mrs G. Roberts, Bryn Golau a Mrs Nesfield, Bryn Argoed, bu'r dair yn yr ysbyty am gyfnod.

Anfonwn ein cofion cynhesaf hefyd at Mrs Parry, Clydfan; Mrs Morris Lewis, Tŷ Newydd a Mr Glyn Williams, Tref Eilian sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Dymunwn wellhad buan i Telor Iwan, Afallon, ac Andrew Davies, Hafan. Cyfarfu'r ddau a damweiniau yn ddiweddar.

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Tom Griffith, Olwen, Helen a teulu Tyn-yr-Onnen yn eu profedigaeth drist o golli priod, mam a nain dyner iawn, ac hefyd at Mrs Catherine Jones, Crud yr Awel yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer.

Diolch: Dymuna Tom Griffith, Olwen, Helen a theulu Ann Wyn ddiolch o galon i berthnasau, cymdogion, ffrindiau a'i chyn-gydweithwyr yn y Swyddfa Amaethyddol, am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam, nain a chwaer annwyl iawn.

Diolch am y llu cardiau, ymweliadau a galwadau ffôn. Diolch arbennig i'r meddygon teulu, nyrsus cymunedol a Hospis yn y Cartref am eu gofal tyner.

Diolch hefyd i'r Parch Canon Barry Thomas am ei ffyddlondeb a'r wasanaeth angladd.

Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at y swm o dros £1,000 er cof am Ann — rhennir yr arian rhwng Meddygfa Waunfawr a Hospis yn y Cartref.

Sgîo: Derbyniodd y Cyng Eurig Wyn £60 o roddion gan bentrefwyr i gynorthwyo gyrfa sgîo ryngwladol Michael Wroe.

Dywedodd y Cynghorydd Wyn ei fod yn ddiolchgar i bawb am y rhoddion. Mae wedi cyflwyno'r arian i Michael Wroe, gan ddymuno'n dda iddo yn ei yrfa.

Merched y Wawr: Cafwyd cyfarfod diddorol o Ferched y Wawr ar nos Iau, Mawrth 26, pan gafodd rhai aelodau gyfle i sôn am ddylanwad eu hardaloedd genedigol arnynt. Bu Mrs Ceri Owens yn siarad am ardal Eifionydd, ac yna bu Mrs Cadi Jones

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr



Llongyfarchiadau i'r tîm pêl-rwyd dan 15 oed a ddaeth yn bencampwyr Sir Eryri, drwy guro Llanrwst 3-2, mewn cystadleuaeth ym Mhwllheli yn ddiweddar. Aeth y tîm ymlaen i Aberystwyth i gynrychioli'r pentref a'r Sir yn chwaraeon yr Urdd. Daethant yn ail i Ddinbych yn y gystadleuaeth honno, wedi curo Llanbrynmair, Merthyr, a Chrymlych.

yn sgwrsio am ardal Mynytho. Llywyddwyd y noson gan Mrs Mary Vaughan Jones a diolchwyd i'r siaradwyr gan Mrs Nan Huws Roberts. Enillwyd y raffl gan Mrs Catherine Jones, Bryn Derwen. Ar ddechrau'r noson talwyd teyrnged i un o'n haelodau ffyddlon a fu farw'n ddiweddar, Mrs Ann Wyn Griffiths, Tŷ-n-yr-Onnen.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 30, pryd y bydd Mr Ceri Williams yn siarad ar 'Mynyddoedd Ddoe a Heddiw'.

Yr Ysgol Feithrin: Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cylch Meithrin a Cylch Ti a Fi, Waunfawr, yn y Ganolfan ar nos Lun, Ebrill 6. Cafwyd crynodeb o ddigwyddiadau'r flwyddyn flaenorol gan swyddogion 1991/92. Etholwyd y canlynol yn swyddogion am 1992/93 — Llywydd: Mandy Williams, 5 Ael y Bryn; Is-lywydd: Janet Griesley, Pen y Berth; Ysgrifennydd: Liz Daniel, 8 Stad Tŷ hen (Ffôn: Waunfawr 485); Trysorydd: Shirley Parry, 8 Pant y Waun; Is-drysorydd: Veronica Owen, Cil-y-Mynydd.

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglŷn â thrip y Cylch Meithrin cysylltwch â'r ysgrifennydd. Mae'r ysgrifennydd yn awr yn derbyn enwau plant sydd am fynychu'r Ysgol Feithrin ym mis Medi eleni. Os am gadw lle i'ch plentyn, cysylltwch a Liz Daniel ar Waunfawr 485.

Yr Ysgolion Sul: Ymunodd Ysgolion Sul y pentref yn ddiweddar i anfon timau i gynrychioli Waunfawr yn y chwaraeon pêl-droed 5-bob-ochr a pêl-rwyd 7-bob-ochr a gynhaliwyd ym Mangor.

Da iawn chi genod — daliwch ati. Diolch yn arbennig i Anti Carys ac Anti Christine am hyfforddi'r tîm. Dymuna Anti Christine ac Anti Carys ddiolch i genod y tîm am eu hymroddiad drwy'r flwyddyn ac am y tariannau a gawsant yn anrheg.

Cynhelir cyfarfod o bwyllgor yr Urdd ar nos Fercher, Mai 20, yn y Ganolfan am 6.30 o'r gloch.

Llongyfarchiadau i'r tîm pêl-rwyd dan 14 oed am lwyddo i gyrraedd y rownd derfynol. Yn anffodus colli wnaethant 2-1 yn erbyn Llanrug.

Cyrhaeddodd y tîm pêl-droed dan 11 oed y rowndiau cyn-derfynol, ond yna colli wnaethant hwythau.

Diolch i bawb a gymrodd ran yn y chwaraeon, beth bynnag fu hanes eu tîm a diolch i'r llu o rieni am gludo'r plant.

Diolch yn arbennig i Christine Davies, Hafan, a Carys Jones, Tref Eilian, am hyfforddi'r timau pêl-rwyd ac i Gary Davies, Hafan, am hyfforddi'r timau pêl-droed.

Yr Urdd: Cafwyd nosweithiau o chwaraeon i gloi'r tymor yng ngwmni Carys, un o weithwyr swyddfa'r Urdd, ar Ebrill 1, ac yng ngofal Heulwen Jones, Heulwen Huws ac Ann Alfryn ar Ebrill 8.

Diolch i bawb a gyfrannodd o'u hamser i'n galluogi i gynnal y cyfarfodydd drwy'r gaeaf.

Taith y Beganîfs i Fryslân: Ddechrau mis Mawrth bu'r Beganîfs mewn gŵyl roc ryngwladol i ieithoedd lleiafrifol yn Uteinvock yn Fryslân. Yn gwmni iddynt roedd y cwmni teledu Criw Byw ac 'roeddynt yn cael eu ffilmio gydol y daith. Efallai ichi weld y rhaglen ar y teledu ar yr ail o Ebrill. Tra yn Fryslân hefyd buont yn gwneud fideo i 'Syth '92'.

Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn y Ganolfan nos Fercher, Mai 20 am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i unrhyw riant neu aelod o'r cyhoedd sydd â diddordeb yn yr Urdd ac yn adran bentref y Waunfawr.

Llwyddiannau Cerddorol: Bu'r canlynol yn llwyddiannus mewn

arholiadau cerddorol. Ffliwt, gradd 3: Heledd Elfryn, Coed Gwydryn gydag anrhydedd; piano, gradd 3: Kristy Jones, Cynefin a Bethan Cadwaladr, 3 Glyn Afon. Ysgol Guildhall o Gerdd a Drama, rhagarweiniol — Aled Rhys, Pen-y-graig (gydag anrhydedd).

Llwyddiant Eisteddfodol: Bu amryw o'r pentref yn llwyddiannus mewn gwahanol gystadlaethau mewn eisteddfodau o amgylch yr ardal yn ddiweddar. Llongyfarchiadau ichi i gyd ac yn arbennig i Myra Turner a gipiodd y brif wobr adrodd mewn dwy eisteddfod ar yr un noson.

Diolch: Dymuna Irene Roberts, Pant Teg, ddiolch yn fawr iawn i'w chymdogion a'i chyfeillion am eu caredigrwydd iddi yn ystod yr wythnosau diwethaf yma.

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn:
Waunfawr 552

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

Castell Cidwm



BETWS GARMON
Ffôn: Waunfawr 243

Dewch am wledd ym
MWYTY'R PYSGOTWR
ar lan Llyn Cwellyn lle
diddorol, gwahanol, braf

ac am baned o goffi a theisen hufen
mae croeso i deuluoedd a phlant yn
CAFFI'R BWTHYN

NANT PERIS

Ann Fleming, Dolwen,
8 Nant Ffynnon.

Diolch: Dymuna Mrs Alice S. Jones, Gwynant, Nant Peris, ddiolch am bob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Bedydd: Nos Sul, Ebrill 12, yn Eglwys Sant Gabriel, gyda'r Rheithor, y Parch Peter Pritchard yn gwasanaethu, bedyddiwyd Anest Mair merch fach Avril ac Eifion Jones, Glan-y-don.

Cymanfa'r Annibynwyr: Dydd Sul, Ebrill 12, cynhaliwyd y Gymanfa yng Nghapel Jeriwsalem, Llanberis.

Cymerwyd y rhan agoriadol yng ngwasanaeth y plant yn y Pnawn gan Mr H. R. Jones, Llanberis. Thaw elen oedd 'Helpu', a chymerwyd rhan gan blant eglwys Jeriwsalem, Bosra, Nant Padarn ac Ebeneser. Diolchwyd i'r plant, i'w hathrawon ac i'r cyfeilyddion am waith canmoladwy iawn, hefyd i'r arweinydd Mrs Annette Bryn Parri, ac i'r organyddes Mrs Hefina Jones gan Mr H. R. Jones.

Yng nghyfarfod yr hwyr cymerwyd y rhan agoriadol gan aelodau eglwys Jeriwsalem. Croesawyd yr arweinydd gwadd, Mr J. Griffiths, arweinydd Côr Meibion Dinas Bangor, i'r unawdydd Mr Gareth Rowlands, a rhai o aelodau'r Côr am ymuno â ni gan Mr Bert Thomas. Yr organyddes oedd Mrs Hefina Jones. Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad i lwyddiant y Gymanfa gan Mr Thomas.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod i'r aelodau yn yr Ysgol Gymuned ar nos Fawrth, Ebrill 14. Dechreuwyd y cyfarfod trwy weddi. Croesawyd Mrs Marjorie Roberts yn ôl i'r cyfarfod gan ddymuno gwellhad buan iddi ar ôl cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd y flwyddyn ddiwethaf. Cafwyd adroddiad gan Mrs Taylor am y pwyllgor a gynhaliwyd ym Mangor ar 19 Mawrth. Cynhelir Gŵyl Ddeoniaeth Undeb y Mamau yn Llanidloes ar 3 Mehefin. Croesawyd y wraig wadd, Mrs Pat Wright, gan Mrs Taylor. Yr Wythnos Sanctaidd oedd pwnc Mrs Wright a chafwyd trafodaeth ddiddorol iawn. Yn gofalu am y lluniaeth roedd aelodau Cwm-y-glo. Diolchwyd i Mrs Wright, ac am y lluniaeth gan Mrs Joyce Ransom. Rhoddwyd y raffl gan Mrs H. Orritt ac fe'i henillwyd gan Mrs D. Pierce.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun, Mai 11, yn Hafan Elan, Llanrug. Y gwŵr gwadd fydd Mr Derek Wiggett.

Clwb Pobl y Cwm: Ar Fawrth 19 daeth un o westai ffyddlonaf y Clwb

i gadw cwmni i ni, sef Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr, ac un sydd bob amser a rhywbeth diddorol ar ein cyfer.

Wedi rhannu'r aelodau yn ddau dîm aeth Mrs Jones, trwy gyfrwng degau o ddarluniau bendigedig a dynnwyd ganddi, ar daith drwy Gymru, o Fôn i Fynwy, a ninnau am y gorau yn ceisio adnabod y gwahanol fynyddoedd, llynnoedd ac afonydd, rhaeadrau, eglwysi a chapelau arbennig, cartrefi a cherfluniau Cymry adnabyddus, a llawer mwy. Pnawn gwirioneddol ddiffr a'n gadawodd gyda'r teimlad mai briant fuasai cael dilyn ei thaith o'r dechrau i'r diwedd.

Diolchodd Mrs G. Chick i Mrs Jones am bnawn ardderchog, ac addysgiadol.

Goflwyd y baned a'r raffl oedd Mrs mair Williams a Mrs Jane Parry, ac enillydd y raffl oedd Mrs Glenys Pritchard.

Ar Ebrill 2il ein gwraig wadd oedd Mrs Meira Bryn Hughes, Llanberis, un arall y mae croeso cynnes iddi yn y Cwm. Mewn modd difyr iawn, bu Mrs Hughes yn sôn am bwysigrwydd Cwm-y-glo ac ardal Penllyn cyn bod ffordd i Lanberis heibio'r llyn, yn hytrach â'i y ffordd trwy'r Clegir.

Aeth ymlaen i sôn am gymeriad gerddodd o Sir Feirionnydd trwy fwllch Llanberis i gartref ei phriod ieuainc yn y Tŷ Du. Cawn eu hanes yn adeiladu tŷ bach ar ddarn o dir comin yn y Clegir, a adwaenir o hyd fel Bryn Clyd. Yno, bu'n magu tyaid o blant ar gyflog bychan iawn. Cafodd lawer o brofedigaethau yn ogystal, ond trwy'r cwbl cadwodd Siân Dafydd ei ffydd, a bu'n aelod i'r diwedd yng nghapel bach y Clegir. Wedi gwrandao ar amodau byw Siân Dafydd, sylweddolwn mor dda yw hi arnom ni heddiw.

Diolchodd Miss E. Hughes i Mrs Hughes am sgwrs ddiffr iawn. Rhoddwyd y te gan Mrs K. Williams a Mrs G. Chick. Mrs Watkins roddodd y raffl a Mrs G. Chick a'i henillodd. **Diolch:** Dymuna David Foulkes ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion, am y cardiau, arian a'r anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed. Diolch yn fawr.

Ysgol Gymuned Cwm-y-glo: Ers i ni weld ein gilydd ddwytha' mae'r noson o chwarae Bingo wedi bod — a noson a hanner oedd hi hefyd! Neuadd yr ysgol yn llawn dop o bobl o bob rhan o'r byd a phawb yn mwynhau eu hunain. Diolch i bawb am eu cefnogaeth a llongyfarchiadau i'r sawl gafodd wobwr un ai wrth chwarae neu yn y raffls. Wyddoch chi bod yna ddeg ar hugain o wobrau da yn y raffls? Dyna ddangos sut fath o ffrindiau sydd gennym fel ysgol. Diolch i bawb am chwyddo Cronfa'r Ysgol efo swm sylweddol iawn o arian.

Yn ystod wythnos ola'r tymor cafodd yr Adran Iau y pleser o wyllo'r Babanod yn rhoi perfformiad o ddrama gerdd am 'Gantre'r Gwaelod'. Perfformiad arbennig o dda ac yn ffordd effeithiol iawn o ddirwyn gwaith y tymor i ben. Yn ystod yr un bore, cafwyd eitemau cerddorol gan blant yr Adran Iau i ddiddori y rhai bach. Diolch i bawb am eu gwaith caled.

Gan fod cymaint o sôn am etholiad ar y cyfryngau, penderfynodd y plant hŷn gynnal eu hetholiad eu hunain. Y testun oedd 'Sut i wella Cwm-y-glo' a chafwyd gan y pedwar ymgeisydd areithiau grymus iawn a syniadau gwreiddiol. Wedi'r cyfiri pleidleisiau, y Blaid Genedlaethol oedd ar y blaen a mwyafrif dros y tri ymgeisydd arall efo'i gilydd. Adlewyrchu beth ddigwyddodd yn Arfon, yn ôl canlyniadau'r rhan yma o'r byd.

Wel, mae pawb wedi ei gwadnu hi am adref rŵan er mwyn ymosod ar

yr Wyau Pasg. Chwarae teg iddynt, mae pawb yn eu haeddu ar ôl tymor hir. Fe'ch gwelwn chi eto y tymor nesaf, gobeithio. Hwyl fawr.

Noson Bingo yr Ysgol: Nos Wener, Mawrth 20, daeth tyrfa ynghyd i Neuadd yr Ysgol i chwarae Bingo. Trefnwyd y noson gan Bwyllgor Cymdeithas Rhieni/Athrawon yr ysgol fel gweithgaredd i godi arian tuag at Gronfa'r Ysgol.

Rhoddwyd wobrau am bob 'llinell' ac am bob 'tŷ'. Yn ogystal enillodd Kath Green a Carys Williams wobrau 'Winner Takes All'.

Yng ngweithgareddau'r noson roedd raffls a 31 o wobrau. Y rhai lwcus ar y noson yn y raffl fewnol oedd — Ifan Jones, Gwyneth Roberts, Mrs J. Denny, Sioned Jones, Hilda Orritt, Mr Rodgers, Kate Owen, Margaret Jones, Eira Langord, Joyce Rowe, J.R.W., Keith Williams, Bethan Williams, Mrs Williams, Llanrug, Siân Jones, Arwyn Jones.

Yn y raffl allanol — Dol: Jones, 33 Bro Rhythallt, Llanrug; Bocs Nwyddau: W.V., 40 Bro Rhythallt, Llanrug a Neil Rowlands, Glanrafon; Gwin: Llys Arfon, Carmel; Pwrs: Ware, SP Cwm-y-glo; Gwin: Sylvia Williams; Bocs Nwyddau: Bethan Williams, d/o Y Frican; Chwisgi: 26 Bro Rhythallt.

Gwnaed elw ar y noson o £265.03 a fydd yn cael ei gyflwyno tuag at Gronfa'r Ysgol.

Dymuna'r pwyllgor y Gymdeithas ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ac yn arbennig felly i'r sawl a weithiodd mor galed i wneud y noson yn llwyddiant.

Bistro

LLANBERIS

Ffôn 871278

**Beth am eich parti 'Dolig eleni
partion o 10 i 50**

**Cinio Twrci 3 cwrs o £8.50 (nos)
neu £7.50 yn y dydd**

Croeso cynnes i bawb oddi wrth Danny a Nerys

DIWEITHDRA YN BROBLEM FAWR

Dangosodd yr ymateb a gafwyd i'r tri cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd gan Antur Padarn yn Llanberis, Llanrug a Deiniolen yn ystod mis Ebrill bod diweithdra yn broblem fawr yn yr ardal.

Daeth oddeutu 450 o bobl i'r tri cyfarfod ac yr oeddynt yn ddiolchgar iawn o'r cyfle i glywed ac i drafod y posibilrwydd o gael cynnig gwaith gan gwmni EURO-DPC yn Llanberis. Hefyd dangosodd y cyfarfodydd hyn na all y cwmni yma ynddo'i hun ddiwallu anghenion pawb sy'n ddi-waith a bod yna angen chwilio am ffurfiau eraill o ddenu gwaith i'r dyffryn. Gobeithio y gwelwn hyn yn digwydd yn fuan.

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Institiw, Llanrug, ar nos Fawrth, 14 Ebrill, bu i Dr Delyth Morris adrodd

ei bod bron a chwblhau'r gwaith o baratoi casgliadau'r holiadur ar gyfer ei argraffu a'i gyhoeddi. Gobeithiwn adrodd mwy am hyn yn y rhifyn nesaf o'r Eco. Hefyd fe adroddwyd bod y gwaith o lunio cyfansoddiad i'r Antur yn mynd rhagddo a bod cyfarfod gyda Adran Datblygu Economaidd Gwynedd a cynrychiolwyr trefi mewn golwg wedi eu trefnu cyn y cyfarfod nesaf o'r Antur a gynhelir yn Angorfa, Stryd y Ffynnon, Llanberis, ar nos Iau, Mai 14, am 7 o'r gloch.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

CRIB COCH

**Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772**

**TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN**

**Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser**

CHWILOTA

CERDDDED

TERFYNAU'R PLWYFI



Mae rhai nodiadau ynglŷn â gwahanol arferion wedi eu copïo yn y llyfrau trethi'r tlodion y soniais amdanynt y mis diwethaf. Un ohonynt yw'r arfer o gerdded terfynau plwyf Llanddeiniolen ar amser arbennig o'r flwyddyn. Yr oedd yr arfer hwn yn digwydd tua'r un cyfnod â thymor yr hau, a chynhwysir rhai penillion am y ddefod honno hefyd:

*Ofer hau a 'redig llawer,
Ofer llyfnu'r maint a hauer;
Oni ddyry Duw ei fendith,
Dan y gŵys y pydra'r gwenith.*

Digwyddai'r arferiad yn dilyn y Pasg, fel arfer ar y pumed Sul wedi'r Wyl, sef Sul y Gweddïau. Roedd y dyddiau yn dilyn y Sul hwnnw yn cael eu galw yn Dridiau'r Gweddïau.

Yn ôl yr hen arferiad yn Llanddeiniolen, neilltuid y Sul hwnnw i ofyn am fendith ar gnwd y ddaear, oherwydd erbyn hynny, byddai pawb wedi gorffen hau. Roedd yr emyn canlynol yn cael ei ganu:

*Di Arglwydd y Cynhaeaf,
Dy eiddo di yw'r hâd;
Tydi sy'n rhoddi'r cynnydd
O'th helaeth law yn rhad;
Pob llygad ddisgwyl wrthyt
Am ymorth yn ei bryd;
Ein bara wyt i'n cynnal
Drwy rin dy aberth drud.*

*Ni phallodd dy gyfiawnder
I'th deulu ar y llawr;
Dy fendith dyro eto
I'n hau a'n plannu nawr;
Dy eiddo di yw'r cynnar
A'r diweddar ulaw a'r gwres,
A bywyd pob planhigyn
A roddi er ein lles.*

Yn ystod Tridiau'r Gweddïau byddai'r Offeiriad, Swyddogion y Plwyf a'r plwyfolion yn *terfynu'r* plwyf yn orymdaith gref dan ganu Litani briodol a Salmau neilltuol. Byddai'r henaigwyr yn hynod o ofalus i ddangos y terfynau i'r ieuencid. Roedd yn ymddangos fod i hyn ddau bwrpas — gwneud yn sicr fod yr ieuainc yn cofio'r terfyn, ac yn ail, eu dysgu i beidio chwennych tir eu cymydog a'u temtio i symud terfyn!

Tybed pryd daeth yr arferiad hwn i ben yn Llanddeiniolen? A oedd yn bodoli ym mhlwyfi Llanberis a Llanrug hefyd?

SIMDDE LLANDDEINIOLEN

Daeth ymateb i ddau o destunau'r mis diwethaf oddi wrth Mrs Evans, Llys Gwynt, Penisarwaun. Dywed fod traddodiad yn Llanddeiniolen i reithor y plwyf, yn ystod cyfnod Gwerin-lywodraeth Cromwell, guddio mewn simdde rhag cael ei erlyn. Cafodd nifer o reithoriaid ac esgobion eu diarddel yn ystod y cyfnod hwn, a charcharwyd rhai. Yn ôl y traddodiad, bu rheithor Llanddeiniolen yn cuddio i fyny'r simdde fawr yn ffermdy'r Gelli heb fod ymhell o'r eglwys. Oes rhywun arall yn medru cadarnhau iddynt glywed am y traddodiad hwn?

BARA BWFF

Gan Mrs Evans hefyd y daeth gwybodaeth am y grempog a elwid yn fara bwff. Rhai o Fôn oedd rhieni

Mrs Evans, a ddaethant i fyw i Ddinorwig pan gafodd ei thad waith yn y chwarel. Roedd ei mam yn gwneud bara bwff, sef crempog wedi ei gwneud â burum. Roedd crempog o'r fath yn cadw, a byddai mam Mrs Evans yn gwneud ei chrempogau burum ar ddydd Llun fel y bo'i thad yn eu cael i fynd i'r chwarel i'w bwyta ar ddydd Mawrth Ynyd. Yn anffodus nid yw Mrs Evans bellach yn cofio'r risët a ddefnyddiai ei mam. Oes rhywun o'r darllenwyr yn gwybod sut i wneud crempog furum neu fara bwff?

Diolch hefyd i Mrs Mabel Parry (Morris gynt o Glwt y Bont), Hiracl, Bangor, am wybodaeth ychwanegol am Owen Williams o Ddinorwig Terrace, Clwt y Bont. Gobeithio y gallaf roi mwy o wybodaeth amdano mewn rhifyn diweddarach.

Gyda diolch am eich ymateb. Cofiwch anfon unrhyw sylwadau i **Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (Ffôn: Caernarfon 3515)**

Doethineb y mis: 'Mae ychydig o wybodaeth yn beth peryglus iawn' — *Eiry Palfrey (Seryddwraig).*

I.....O
Mae mul Jân Parî'n 'mason' medd rhai o'r plwy
Ac nis gall dyn diaddysg ddim llai na'u coelio hwy.
Yn rhwysg ei garnau gwynion a'i benaglennau blew,
Mae deunydd yn y bywstfil i wneuthur 'brawd' go lew.

A phan ddaw at ei derfyn i gipio blewyn brau,
Ni chymer hwn o law neb llai na'r dewisedig rai.
Ac os daw'n hirlwm arno a'i borfa'n llwm a mall,
Caiff swydd ymysg y 'brodyr' yn bennaeth hyn a'r llall

CLW-CLWCS-LLAN

GERDDI GLASCOED
(Ger Capel Glascoed)
PENISARWAUN
Mae'r gwanwyn yn dod!
Cyn plannu galwch heibio neu ffoniwch 8870453

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Pen-blwydd: Llongyfarchiadau a'r dymuniadau gorau i Mrs Blodwen Evans, Cae Gwyddel a ddathlodd ei phen-blwydd yn 80 oed ar Fawrth 14eg.

Cymdeithas y Chwiorydd: Cyfarfu Cymdeithas Chwiorydd Brynrefail M.C. ar nos Iau, Ebrill 2, yn y Ffestri. Croesawyd pawb i'r cyfarfod agoriadol hwn o dymor yr haf gan y Llywydd, Mrs Jennie A. Roberts a hi hefyd a gymerodd at y rhannau arweiniol. Y wraig wadd am y noson oedd Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr, a threuliwyd orig ddifyr yn ei chwmni yn mynd a ni o gwmpas Cymru — ei golygfeydd trawiadol ac adeiladau crefyddol a hanesyddol — drwy gyfrwng sleidiau. Diolchwyd i Mrs Jones gan Miss Lowri P. Roberts. Paratowyd y lluniaeth gan Mrs Pat Jones a Mrs Eirianwen Evans. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fair 7fed pryd y disgwylir Mr Iwan Roberts, Llanrug i roi sgwrs.

Cofion: Anfonwn ein cofion gan ddymuno adferiad buan i Mr O. J. Williams, Bryn Melyn, tra'n derbyn gofal meddygol yn Ysbyty Gwynedd.

Tro i Benllyn: Mae Pont Penllyn wedi bod yn gyrchfan i genedlaethau o drigolion Brynrefail a'r olygfa oddi yno yn odidog ac yn newydd bob tro. Er fod yr hen bont wedi cael palmant eithaf llydan yn ddiweddar, mae cerbydau cwmnïau bysiau ledled Prydain yn mynnu gwasgu eu ffordd heibio, i'r ymwelwyr gael cip ar y llyn a'r olygfa wych o'r Wyddfa. Ar fur y bont yn ddiweddar gosodwyd plac llechen hardd i ddynodi'r ffin rhwng dau blwyf — Llanrug a Llanddeiniolen — ond y cywreinrwydd diweddaraf yw ceisio cael cipolwg ar nyth y pâr o elyrch sydd yn agos i lan y llyn. Mae'r ceiliog sydd i'w weld yn aml yn nofio'n hamddenol a phlymio i'r dŵr yn cadw gwyliadwriaeth fanwl. Cyngor y profiadol yw — peidiwch a mynd yn rhy agos!

Cymanfa Dosbarth Padarn: Bydd y Sul cyntaf o Fai yn Sul Cymanfa'r Dosbarth fel arfer, ond eleni am y tro cyntaf yn hanes y Dosbarth, bydd y Gymanfa yn cael ei chynnal yng Nghapel M.C. Rhiwlas. Trefnir cludiant i'r ddau gyfarfod am 2 a 6 o'r gloch.

Sefydliad y Merched: Brynhawn

Sadwrn, Ebrill 11, bu nifer o aelodau'r gangen leol yn westwagedd i ddeugain o aelodau Cymdeithas Cerddwyr o bob rhan o Wynedd gyda'u harweinydd Mrs Maud Williams, Caernarfon. Trefnwyd y lluniaeth yn Neuadd yr Eglwys, Penisarwaun i groesawu'r cerddwyr ar derfyn eu taith o Landdeiniolen a oedd yn cynnwys ymweliad â Phen Dinas a Ffynnon Cegin Arthur. Cynhaliwyd cyfarfod y mis, nos Lun, Ebrill 13 yn y Ffestri. Yn absenoldeb y Llywydd croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Mrs Carol Houston. Treuliwyd y noson yng nghwmni Mrs Alwena Leadbitter sydd gyda'i phriod yn berchenogion Meithrinfa Blanhigion Glasgoed. Cafwyd adroddiad diddorol o sut y bu iddynt sefydlu'r Feithrinfa a thrwy gyfrwng arddangosfa o blanhigion rhannodd â'r aelodau nifer o gynghorion buddiol. Diolchwyd iddi am noson ddiddorol gan Miss Lowri P. Roberts. Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Leadbitter, oedd Mrs Mair Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Eleanor Williams a Mrs Carol Houston. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun, Mai 19, pryd y trafodir yr argymhellion ar gyfer y Cyfarfod Blyneddol a gynhelir eleni yn Bournemouth.

Cartrefi Newydd: Croeso cynnes i'n plith i Dafydd a Carys Williams sydd wedi ymgartrefu gyda'u dwy ferch fach ym Meini Gleision, Stâd Erw Nant. Mae Mr Williams yn Is-reolwr Banc y National Westminster yng Nghaernarfon. Ein dymuniadau gorau hefyd i Mr John Orwig Jones a Mrs Jennie A. Roberts, Glandwr, pan fyddant hwythau yn symud maes o law i'w cartref newydd yn 2 Ffrwd Madog.

DRAENOG

Mae'r tywydd oer diweddar 'ma wedi cael cryn effaith ar y diwydiant ymwelwyr. Effaith go wahanol gafodd yr oerfel ar un o yrrwyr trên bach yr Wyddfa. Ddechrau'r mis hwn bu'n rhaid stopio'r trên er mwyn i'r dreifar druan gael rhuthro tu ôl i greigiau cyfleus i droi ei glôs. Mae'r Bwrdd Croeso yn cysidro ail-enwi 'Dai the Dreifar' yn Dai(aria) the Dreifar!

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

COLLEDION gan DEIO

Gwranddo ar y newyddion pa noson a meddwl am gymaint y colledion y soniwyd amdanynt. Neil Kinnock yn penderfynu ymddiswyddo o fod yn arweinydd y Blaid Lafur a Hattersley fel ei Ddirprwy. Yna, beth am y Dywysoges Ann yn penderfynu gofyn am ysgariad oddi wrth Mark Phillips, a hefyd Nelson a Winnie Mandela yn penderfynu gwahanu ar ôl bod ar wahan cyhyd?

Hyn i gyd yn digwydd yn dilyn colledion o fath rai dyddiau ynghynt. Gwleidyddion amlwg o bob plaid yn colli neu'n rhoi'r gorau i'w seddi — pobl fel Christ Patten, Jim Sillars, Geraint Howells, Dafydd Elis Thomas a Dennis Healey. Pwy meddech chi? Rhyfedd sut yr anghofiwn enwau nad ymddengys yn y wasg yn gyson. Wedyn, dyna'r teulu brenhinol yn dod yn fwyfwy tebyg i unrhyw deulu cyfoethog arall meddem gan ei chael yn hynod anodd i gadw allan arferion sy'n digwydd yn amlach pob dydd. Y dyn gwyn wedyn yn Ne Affrica yn penderfynu rhoi mwy o lais i'r croenddu a hynny'n rhoi straen ychwanegol ar briodas yr enwogyn Nelson Mandela serch fod ei 'bobl' yn mynd i golli peth o'u caethiwed.

Tua'r un cyfnod collwyd Capel Disgwylfa yn Neiniolen. Gwelir stori am y botel o dan y pulpud mewn erthygl arall yn y rhifyn hwn, ond rhyfedd bellach yw troedio i lawr Ffordd Deiniol heb olwg o'r adeilad urddasol ar y gornel waelod. Adeilad a fu'n sefyll am bron i 130 o flynyddoedd wedi colli'r awydd i sefyll ar ei draed. Rhyfedd oedd clywed un o olygyddion newydd y papur hwn yn sôn iddo deimlo colli'r adlais a oedd yn bodoli ym mynwent Macpelah wrth iddo wasanaethu yn rhyhoeddus mewn angladd. Y llais bellach yn lledaenu tros y wlad.

Beth arall a gollwyd y ystod y mis? Un ateb a gefais oedd y naws mewn Cymanfaoedd Canu. Llai a llai yn eu mynychu a llai a llai'n gwybod yr emynau a'r tonau. A sylwoch yn ddiweddar gymaint o seddi gweigion sydd yn addoldai'r rhaglenni 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol' a faint o'r gynulleidfa sy'n gaeth i daflenni er mwyn darllen y geiriau, yn enwedig o'r ail bennill ymlaen? A

gollwyd y ddisgyblaeth o ddysgu emynau, neu unrhywbeth yn wir, ar y cof?

Cofiwch, buasai sawl un yn dadlau ei bod yn hen bryd inni dderbyn y colledion a soniwyd amdanynt uchod. Y Goriad, papur bro Bangor a'r cylch sy'n sôn yn ei rifynnau diwethaf am gau pob addoldy yn y ddinas gan adeiladu adeilad anenwadol o'r newydd yn eu lle. Pam ddylai pâr priod anhapus barhau i fyw gyda'i gilydd pe gellir cael dedwyddwch ar wahân? Kinnock wedyn a fu fel Gorvachev hwyrach yn arwain ei blaid at y dŵr ond heb fedru gorfodi'r anifail hwnnw i'w yfed. Amser a ddengys ai colled yr unigolyn ynteu colled y wlad fydd diflaniad gwleidyddion enwog. Mae'n amlwg wedyn fod cryn aniddigrwydd yn parhau yn Ne'r Affrig o hyd gyda'r ddeuliw'n ofni'r dyfodol a sicrwydd wedi mynd ar goll.

Hwyrach mai ofn colli sicrwydd sydd gennym ninnau hefyd wrth i genhedlaeth ar ôl cenhedlaeth ohonom ofni sefyll ar ein traed ein hunain gan reoli'n hunain. Ie, emosiwn cryf iawn yw ofn ac ni ddileir tros nos. Ai colled ynteu ennill fyddai yn deillio o lacio'r cysylltiad rhyngom â Lloegr tybed? Beth yw eich barn?

Bwriedir tros y misoedd nesaf redeg colofn tebyg i'r uchod sy'n codi pwyntiau a allai, o bosibl, gynhyrfu'r dyfroedd. Credwn fod colofn lythyrau gref yn adlewyrchiad o iechyd trafodaeth yn ein cymdeithas leol. Rhoddwch bin ar bapur ac anfonwch air atom i fynegi'ch barn. Dim ond o glywed barnau gwahanol y deawn yn fwy ymwybodol o'n barnau a'n rhagfarnau ein hunain. Felly, pin ar bapur amdani!

**CYFARFOD BLYNYDDOL YR ECO
YN YSGOL BRYNREFAIL, LLANRUG
MAI 7fed am 7 o'r gloch
GWELER Y DUDALEN FLAEN**

SIOP
Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith



CANOLFAN
GARDADIO
Blodau, Grug
Alpau, Perthi

ANTUR WAUNFAWR
Ffôn: Waunfawr 721

Cynnal a Chadw Gerddi
Cynnal a Chadw
Plannu Coed

Meinciau Concridd a Phren
Planters Concridd a Phren
Corachod

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733



Llongyfarchiadau i Michelle Louise Robers, 9 oed, o Lanrug am ennill y gwpan am adrodd Saesneg dan 11 oed, a'r gwpan am y perfformiad orau dan 19 oed yn Eisteddfod Minsterley.

Diolch: Dymuna Bryn Davies, Crud-y-werin, Porthaethwy, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tra'r oedd yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Merched y Wawr: Yn yr Ysgol Gynradd nos Fwrth, Ebrill 7fed, cynhaliwyd cyfarfod y gangen leol dan lywyddiaeth Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn. Estynnwyd croeso i'r gŵr gwadd, Morus y triniwr gwallt o Bwllheli a threuliwyd noson ddifyr iawn yn ei gwmni. Cafwyd llawer cyngor defnyddiol ganddo a sgwrs am y newid mewn techneg o drin gwallt. Mrs Mair Huws a Mrs Eirlys Roberts oedd y ddwy fodel lwcus ar y noson. Diolchwyd i Morus a Clint oedd yn cynorthwyo gan Mrs Anwen Owen ac enillydd y raffl oedd Mrs Nancy Lovatt.

Llongyfarchiadau i'r côr a'r parti dawnsio gwerin ar eu llwyddiant yn Eisteddfod y rhanbarth a gynhaliwyd ym Methesda ar Ebrill 11. Pob lwc iddynt yn yr Ŵyl genedlethol a gynhelir ym Mhontrhydfendigaid ym mis Gorffennaf.

Plaid Cymru: Bydd Helfa Drysor flynyddol y gangen ar nos Fercher, Mai 13, yn cychwyn am 6.30 o'r gloch wrth Ysgol Brynrefail. Cewch fwy o fanylion ar y poster. Edrychwn ymlaen at eich gweld ar yr helfa, a bydd Nan Humphreys yn barod i dderbyn eich enwau erbyn nos Lun, Mai 11, os gwelwch yn dda. Ffoniwch Caernarfon 5668.

Anfonwn ein cofion at aelodau sy'n cwyno yn eu cartrefi neu mewn ysbyty. Brysiwch wella.

Dyma enillwyr diweddaraf y Clwb Cant — Chwefror: 1, Twrog Jones; 2, Alwena Williams, Bron Wenda. Mawrth: 1, D. Whiteside Thomas; 2, Robin Williams, Sŵn y Gwynt. Ebrill: 1, Meryl Green; 2, Delyth Lloyd Griffith. Mae croeso i fwy ohonoch i ymaelodi â'r Clwb Cant. Am fanylion ffoniwch Caernarfon 4878.

PLAID CYMRU LLANRUG HELFA DRYSOR

Nos Fercher, Mai 13

yn cychwyn o
Ysgol Brynrefail
am 6.30 o'r gloch

Mwy o fanylion ac enwau
erbyn Mai 11 i:
Nan Humphreys, Caernarfon 5668
neu
Phyllis Ellis, Llanberis 870237

CROESO I AELODAU A FFRINDIAU

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota




Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

J.R. PRITCHARD BONTNEWYDD

Ffôn:
Caernarfon 3507

Gwneuthurwyr
Ffenestri a Drysau
Ffoniwch am fanylion
a phrisiau cystadleuol



YDACH CHI DŴAD?

Y Gwalch

(Roeddwn wedi clywed yr hanesion dilynol lawer gwaith ar lafar gan y diweddar Mr W. M. Hughes, Y Rhiwen, cyn i'w hunangofiant ymddangos. Ymgais yw hon i roi'r agwedd o safbwynt y teithiwr)

Pan ddaeth cyfaill a chodoeswr fy nhad, Mr W. M. Hughes, Y Rhiwen, allan o'r R.F.C. ar ôl y Rhyfel Mawr penderfynodd ynghyd âs'i dad a'i frawd i gychwyn cwmni trafniid cyhoeddus yn yr ardal. Roedd hi'n dipyn o fenter. Er fod cangen o'r rheilffordd LMS wedi ei sefydlu yn barod o Gaernarfon i Lanberis, doedd yna ddim cyfleusterau teithio ar gyfer trigolion y frodir.

Daimlers yn cynnwys trideg chwech o seddau oedd y cerbydau cyntaf, a rheini o nerth a dibendod ansicr, ac yn rhedeg ar deiars caled. Hen lorïau gwyr traed oedden nhw, goroeswyr o Fflandrys a'r holl feysydd gwaedlyd rheiny. Roedd yna rhyw gwmni o Slough yr adeg honno yn eu haddasu fel *char-a-bancs*. Bydd Mr Hughes yn mwynhau dweud fel yr aeth i'r fan honno bob cam gyda chyfaill i mofyn y gyntaf, er na fu'r un o'r ddau y tu ôl i olwyn lywio o'r blaen. Yn ôl yr hanes, doedd y siwrne yn ôl ddim mor anhebyg â hynny i daith mewn coits fawr, ac wedi cymryd llawn cymaint o amser.

Penderfynodd y brodyr alw y cwmni ar ôl eu cartref. Coch oedd lliw'r cerbydau, gyda streipan wen yn gylch ogylch, ac am rhyw reswm yr oeddent yn cael eu galw yn *leinars*. Ar ôl orïau, roeddent yn cael eu cadw mewn hen dwll chwarel ger Y Rhiwen, ac yno hefyd yr oeddent yn cael eu hymgeleddu.

I gychwyn yr oeddent yn rhedeg ar draws gwlad i Gaernarfon drwy Groeslon Tŷ Mawr a Bethel. Ond doedd yna ddim amserlen benodol. Rwy'n credu fod yna daith tua chanol y bora ac un arall 'rhyw dro ar ôl cinio'. Pan ddeuthum i yn ddigon hen i gymryd sylw, roedd yna amseroedd safonol, ac hyd yn oed restr o'r rhain wedi eu pastio ar gefn drws Efail Castell. Ac yr oedd Siani a oedd yn byw tŷ nesa i'r gweithdy yn trefnu ei diwrnod hefo dyfodiad y bysys.

Giât ei gardd hi oedd ein 'stop' ni, er yr oedd pobl yn gallu mynd i mewn ac allan yn rhywle. Yn ystod y tymhorau amrwd, roedden ni'n slwtsiar ar draws y corsydd yn ein clocsiai a'n sgidiau gorau uchel o dan ein ceseiliau. Byddai'r gyrrwr yn disgwyl i ni newid a rhwymo ein careau, a chuddio'r clocsiai mewn tyllau hwylus yn y cloddiau cerrig ar gyfer ein dychweliad o'r dre. Fel ffaith; doedd amser ddim yn ffactor o bryder. Ar ddiwrnodiau marchnad yn arbennig, pan fyddai'r mwyafrif o'r teithwyr yn cynnwys y frawdoliaeth amaethyddol, rwy'n gwybod am achlysuron pan fyddai'r

gyrrwr yn stopio i roi cyfle i'r teithwyr edmygu cnwd o geirch, neu wedd o geffylau trwsiadus a ddigwyddai fod yn troi tyndir mewn cae yn gyfochrog â'r ffordd.

Ond ar nos Sadyrnau yr oeddent yn cludo teithwyr mwya tyrfys. Erbyn hynny roedd y chwarelwyr yn cael eu cario yn ôl a blaen o'u gwaith, ac yr oeddent yn gwneud y gorau o'u hamser hamdden. Byddai'r bys dwaetha o'r dre yn ddiwahân yn cynnal awyrgylch ddiwygiadol, fel yr elai'r côr drwy gynnwys y llyfr hymns Methodistaidd, a rheiny i gyd yn cludo sawyr yr 'Four Alls' neu'r 'Sain Delyn' i'w canlyn. Os yr oedd rhywun yn digwydd bod yn eistedd yn y pen ôl mewn tyrfa felly, roedd angen i rhywun ddechrau ymladd ei ffordd at y drws rhyw filltir neu ddwy cyn cyrraedd yr Efail. Cafodd fy nhad ei ddal mewn anhawster felly unwaith, a chwipiodd ei law anferth am gortyn y gloch fel pe yn rensio ceffyl anhylaw. Tynnodd y gloch yn glir i ffwrdd oddi ar y to. Roedd honno yn anffawd a lynnodd wrth ei anfarwoldeb am flynyddoedd.

Daeth gor-lwytho wedyn i fod yn broblem anodd, a chafodd y perchenogion aml i amryfusedd hefo'r cwnstabiailid a oeddent yn chwanog i guddio mewn cilfachau anisgwyl. Fel atebiad i hyn, byddai'r gyrrwr yn anfon scowts allan o'u blaenau. Mae'n ffaith dderbyniedig fod y *char-a-banc*, y 'Jini Green', a losgodd at y siasi ger y Rhydau yn ddiweddarach, wedi unwaith gludo o'r dre gymaint a chant a deg o deithwyr. Ar wahân i ddyblu ar liniau eu gilydd ar y meinciau roedd rhai yn eistedd yn yr hwd plygedig, eraill yn clwydo ar y *mydgards* mawr dur, a'r gweddill eto byth ar y *running boards* yn dal eu gafael fel crancod yn yr ochrau. O dan y fath amgylchiadau roedd hel pres yn amhosibilrwydd.

Ymestynnwyd y fenter gyda hynny i wibdeithio. Ar Sadyrnau yn yr haf a chyda'r nosau balmaidd byddai'r Jini Green yn mynd â chriw o gylch y ddau fwllch am rhyw hanner coron y pen. Y *Bethesda loop* chwadad nhwtha.

Yng nghanol yr wythnos byddai pobl yn dod â'u da a'u dofednod: cywion ieir a moch a lloiau bach mewn sachau, cwn a chathod a chwningod dof — ac unwaith gwelais afr. Wrth weld amrywiaeth felly yn dadlwytho ar y Maes, aeth rhyw foi clyfar at Wil Bach Afon Goch a oedd yn hel pres, a gofyn, 'Ydach chi'n cario mwncis hefyd?'

'O, ydan — dowch i mewn,' meddai Wil.

Dynion lleol oedd y gyrrwyr wedi hen arfer â'r ffyrdd ac atebolrwydd eu peiriannau. Mewn llawer ystyr yr oeddent yn hogia gneud negas hefyd. Fyddai ddim gan rywun eu stopio ar y ffordd a gofyn iddynt ddod â rhyw nwydd o'r dre, neu newid rhywbeth anfuddiol yn y siop a'r siop — neu hyd yn oed dalu biliau. Yn y gaef roedd y dynion yma yn gwisgo clips beic i rwystro'r gwynt o dyllau'r pedalau rhag rhuthro i fyny coesau eu trowsusau. Un a adwaenem yn dda fyddai'n cario *ffôr-ten* i botio ffesants tros y cloddiau.

Tra'r oeddent yn disgwyl i droi rownd yn y dre, roedd y cerbydau yn cael eu cadw ar y Cei Llechi yn ddiglo. Roedd hyn yn rhoi cyfle i deithwyr a oedd wedi hel gormod o neges i'w cludo o gylch y siopau, fynd yno i gael madael â'u beichiau a dychwelyd i orffen. Byddai eraill yn mynd i mewn hefo fflasg a brechdannau.

Ond yr arfer cyffredin oedd mynd i Caffi Maes, yn enwedig yn y gaef. Byddai yno holwy o dân bob amser, ac o'r fan honno roedd rhywun yn gallu specian drwy'r cyrtans lês i edrych â oedd y bys wedi dod i fyny o'r cei a chymryd ei le ar y Maes ymysg y lleill a oeddent yn paratoi i fynd i Lŷn a'r ardaloedd rheiny, a byddai rhagoriaethau a ffaeolddau'r gwahanol gwmnïau yn cael eu trafod gan y teithwyr. Ond siawns wael oedd i neb gael ei adael ar ôl. Roedd y dynion yn gwybod i'r dim faint oedd wedi dod i lawr, a'u henwau priod a sengl. Doedd cychwyn yr injins p'run bynnag ddim mor hawdd â hynny. Roedd rhai gyrrwyr yn gorfod sefyll ar yr handles i orchfygu'r *compression*, ac mae 'na aml i fawd wedi ei dadgymalu wrth cael cic yn ôl.

Roedd tu mewn i Caffi Maes yr adeg honno yn debyg i *speakeasy*. Roedd yno feinciau cefnau uchel a chilfachau snêc, lle roedd modd trafod busnes cyd-deithwyr yn hollol ddiogel. Y *menu* safonol oedd panad a theisan Eclan, y cwbl yn cael ei gladdu ar fyrdau wyneb marmor, ac yr oedd y rhai a oedd yn y corneli yn gallu ymhyfyryd yn y fraint foethus o yfed o'u soseri.

Roedd y sefydliad hwnnw yn grychfan rheolaidd i rai o'r dre, un neu ddau o'r rhai a adaowdd argraff barhaol ar fy meddylddrych plentynaidd: y flondan benchwiban a eisteddai ger y tân, ac â fyddai o bryd i bryd yn codi i wneud arddangosfa gyhoeddus o dynhau ei sypendars. A'r hen fachgan hefo'r mwstas gwyr meirch; cowboi drwg delfrydol mewn ffilm. Byddai bob amser mewn du fel pe bai mewn hir fwrning; het gantal lydan, topcôt laes bob amser yn agored, fel yr oedd ei grysbas i arddangos gwasgod, ac arni'r giard watch hwyaf â welais erioed. Ar ôl cael ei de, byddai'n rhoi ei ben ar y bwrdd a chwyrnu cysgu, ac os y digwydded fod rhyngddo â'r pared, roedd hi'n gelfyddyd gain i

ddod allan heb ei ddeffro. Ar adegau felly byddwn yn disgwyl i Tom Mix ruthro i mewn a'i ynnau ar dân yn chwilio am yr hen fachgan, a fedrwn i yn fy myw benderfynu pa drosedd yr oedd o wedi ei gyflawni: lladd ei wraig — ynteeu dwyn spectol chwech o Woolworth?

Fel yr âi'r amser, daeth cwmnïau eraill i gystadlu â Mr Hughes. Ymddangosodd y *Bangor Blue*, a'r U.N.U. (you need us), i ba her yr atebodd Y Rhiwen gyda *leinar* newydd yn cario'r neges I.N.U.

Datblygodd rاسus ar y ffordd fawr mewn mannau lle cynt y daliai pobl eu gwynt hefo trol a mul. Daeth yn fater o bwy a allai gyrraedd y teithwyr yn gyntaf: roedd o'n bownd o ddiweddu mewn galanastra. Wrth geisio pasio'r Rhiwen ger Pengelli, rhwygodd yr U.N.U. *fydgard* Mr Hughes i ffwrdd; estyniad a oedd nid yn unig yn cael ei arddel am ei bwrpas ymarferol, ond fel arfbais hefyd. Yr adeg honno rwy'n credu y bu dynau yn chwirlïo.

Yn ddiweddarach toddwyd y cwmnïau bach yn un; gwerthodd Mr Hughes ei drwyddedau i Crosville. Wedyn roedd yn rhaid i bethau redeg i amserau. Y canlyniad oedd i'r berthynas bersonol ddfilanu. Doedd yna ddim amser i ni newid ein sgidiau. Daeth yn fater syml o: 'Wyt ti'n dŵad — neu dwyt ti ddim?'

CYMDEITHAS CYFEILLION YSGOL BRYNREFAIL

Enillwyr y Clwb Cant am fis Ebrill oedd — Mr M. W. Jones, Waunfawr; Mrs Gwyneth Jones, Fachell; Mr R. Ll. Jones, Bethel.

Geni • Bedyddio • Iŵed • Priodas

☛ Achlysur arbennig? ☛
☛ Annheg unigryw? ☛
Beth am un o sampleri

**PWYTHAU
CAIN**

☛ Cynllunir pob samplwr
yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn

☛ Hefyd gwniadwaith o bob math
gwned dŵad, newidiadau, ffenni, a.y.y.b.

☛ Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438

Cartref Newydd • Darnau o farfodoniaeth

CHIROPODIST Gwasanaeth yn eich Cartref **E. Ll. Parry** M.S.S.Ch., M.B.Ch.A. 57 Glanffynnon **LLANRUG**

Ffôn:
**Caernarfon
5754**



**ERYRI
ORGANIG**

LLANFAGLAN
Ffôn: C'fon 76905
Rhwyg 5 a 7 yr hwyr

CYFLENWYR CYNNYRCH GARDDIO ORGANIG

★ Gwrtaitth ★ Bwydydd Hylif

★ Offer atal Pla a Chwyn ★ Compost a mwy
Archebion Post 'Garddio llaw yn llaw â Natur'

Dyddiadur y Mis

MAI

3 Sul. Dosbarth Padarn: Cymanfa'r Dosbarth yn Rhiwlas am 2 a 6 o'r gloch.

4 Llun. Gŵyl Fai.

5 Mawrth. Deiniolen: Undeb y Mamau am 7.

6 Mercher. Deiniolen: Cyngor Blynyddol Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen yn Ystafell y Band am 7. **Yr Ardal:** Ras ffordd — Rhostryfan.

7 Iau. Bethel: Cantorion Elidir — Ysgol Gynradd. **Brynrefail:** Cymdeithas y Chwirydd — Sgwrs gan Iwan Roberts. **Yr Ardal:** Cyfarfod Cyffredinol ECO'R WYDDFA — i'r holl ddarllenwyr yn Ysgol Brynrefail am 7.

8 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8.

11 Llun. Cwm-y-glo: Undeb y Mamau yn Hafan Elan, Llanrug.

12 Mawrth. Llanrug: Merched y Wawr — Cyfarfod Blynyddol.

13 Mercher. Llanrug: Plaid Cymru — Helfa Drysor yn cychwyn 6.30 o Ysgol Brynrefail — croeso i gyfeillion ac aelodau.

14 Iau. Bethel: Cantorion Elidir yn yr Ysgol Gynradd. **Yr Ardal:** Antur Padarn yn Angorfa, Llanberis, am 7.

17 Sul. Dosbarth Caernarfon: Cyfarfod Ysgolion Sul y Plant yn Seilo.

18 Llun. Brynrefail: Sefydliad y Merched.

20 Mercher. Waunfawr: Cyfarfod Cyhoeddus yr Urdd yn y Ganolfan am 6.30.

21 Iau. Bethel: Cantorion Elidir yn yr Ysgol Gynradd.

24 Sul. Yr Ardal: Ras ffordd — Caernarfon.

25 Llun. Gŵyl Banc y Gwanwyn. Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd — Bro Glyndŵr. Llanrug: Tombola yn Ystafell y Band.

28 Iau. Bethel: Cantorion Elidir yng Nghapel Saron. **Brynrefail:** Noson Plygu'r Eco.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

(parhad o dudalen 20)

★ Llwyddodd PETER EVISON, o Gae Hopsyn, Caeathro, i gwblhau ei ail farathon Llundain. Amser cyn-gefnwr tîm Llanbêr oedd 3 awr 45 munud, a oedd yn well o 20 munud na'i amser blaenorol. Ei uwchabwynt oedd camu heibio

Duncan Goodhew — mae hwnnw tipyn arafach ar dir sych!

★ Dartiau i orffen. Gyda tîm 'B' Wellington, Deiniolen, yn ymuno â thîm 'A' y tymor nesaf bydd cryn ddisgwyl am y ddwy gêm fewnol. Pwy fydd yn cyfarfod — a'i Waterloo tybed?



Y GÊM FAWR


Siomedig oedd perfformiad Deiniolen yn y gêm bwysig ar ddydd Llun y Pasg yn erbyn Waterloo, Bangor. Ar faes anwastad, a'r bêl yn troelli i bob cyfeiriad roedd angen cryn benderfyniad gan y chwaraewyr.

Gyda'r gwynt tu cefn iddynt yn yr hanner cyntaf cymysgodd Waterloo eu gêm yn gelfydd. Roedd marcio Deiniol yn llac iawn yng nghanol y cae. Mae gwendid yn y rhan yma o'r cae. Mae canol cae Deiniolen tipyn cryfach yn symud ymlaen, ond gwanton yw'r gwaith amddiffynol. Rhoddodd Brian Roberts Waterloo ar y blaen o'r smotyn, wedi llawio yn y cwrt cosb. Rhwydodd Tony Pugh yr ail gôl yn fuan wedyn, gyda'r amddiffyn ar chwal, wedi pêl hir o'r amddiffyn. Yn ysbeidiol y llwyddodd

Deiniolen i greu pwysau ar amddiffyn Waterloo, ond gwastraffodd Gavin Allen gyfle da trwy or frysio. Mentrodd Waterloo i lawr y cae, a sgoriodd yr hen ben Llywelyn Jones drydedd gôl gyda ergyd i dop y rhwyd yn dilyn eu gornel. 3-0 i Waterloo oedd y sgôr ar yr egwyl.

Os am unrhyw obaith roedd yn rhaid i Ddeiniolen gael gôl fuan. Daethant yn agos nifer o weithiau, ond roedd angen rhywun mwy corfforol yn y blwch. Wedi awr o

CROESAIR MIS MAI




AR DRAWS

1. Brawd Bendigeidfran (7)
5. Mam oen (5)
8. Gwisgaf am fy nghorff (7)
9. Un gantroed hwyrach (5)
10. Ni ddaeth Owen yn gyntaf (3,3,3)
12. Tynnu'r 'f' o Bwllheli (3)
13. Planhigion cors (5)
17. O flaen lol (3)
19. Caer Llangollen (5,4)
21. Gwraig y de (5)
22. Pwy yw'r prif Gyngorydd (1,4,2)
24. Neithior (5)
25. Mae'r hin yn oer (7)

I LAWR

1. Hwyrach (6)
2. Geni'r Baban (7)
3. Aflafar (3)
4. Penwaig Bro Luned Bengoch (5)
5. Padell ffrio aeth yno (5,4)
6. Y lle mwy neu lai? (5)
7. Wedi llenwi'r sgwaryn olaf (6)
11. Trallod neu gyfyngder (9)
14. 'Does unam tebyg iddo (7)
15. Bomiau'r cyfnod modern (6)
16. Agos at rywun (6)
18. Y Sianel neu Gonwy? (5)
20. Yn llawn aer (5)
23. Amheuaeth byr o'r Canolbarth (3)

ATEBION EBRILL



Derbyniwyd atebion ledled y gogledd y mis hwn ac o dynnu'r buddugol allan o het ar nos Lun y Pasg wele enw MEGAN DAVIES, Y Dreflan, 17 Maes Meugan, Rhuthun, Clwyd, yn ymddangos. Llongyfarchiadau iddi hi ond 'does ond gobeithio y gwelwn enw o fro'r Eco yn fuddugol ym mis Mai. Tybed ai chwi fydd yn ennill y wobr?

Anfonwch eich cynigion i Ifor Glyn Efans, Yr Afon Goch, Deiniolen, Caernarfon, erbyn 20fed Mai fan bellaf.

MODURDY PLAS BACH

CAEATHRO

Ffôn: Caernarfon 2072

Gwerthu, Trwsio

Trin Cyrff

H.P. ar gael

CYSTADLEUETH Y PENTREFI

Fe roddir manylion llawn o'r gystadleuaeth bêl-droed (cynradd ac oedolion) yn y rhifyn nesaf. Ydi'r gwahanol dimau wedi eu trefnu?

CHWARAEON

GWARCHOD Y GLANNAU

Gyda'r Wyddfa newydd goli ei gwallt gwyn fe gynhaliwyd cystadleuaeth bysgota cyntaf y tymor. Daeth 70 i gystadlu dros ddau ddiwrnod yn nechrau Ebrill ar Lyn y Dywarchen.

Cipiwyd y tlysau yn yr adran ieuencid gan KEITH LEWIS o Ben-y-groes (dan 17) a GARY MORRIS o Gaernarfon (dan 14). Aeth Tlws Cymdeithas Cheltenham & Gloucester am bencampwriaeth yr oedolion i ANNE VAUGHAN JONES o Ben-y-groes. Yn ei basged ar ddiwedd y cystadlu roedd pedwar brithyll yr enfys gyda cyfanswm pwysau o 4 pwys 3 owns. Daliwyd y pysgodyn unigol trymaf — pwys a 10 owns — gan TONY BROWN o Gaernarfon.

Yn ystod y dyddiau diwethaf rhwydwyd dau frithyll 2½ pwys yn Llyn y Dywarchen — prawf bod y ddeorfa yn dechrau talu am ei hun.

Wedi'r calonogol fe ddaw'r siom. Mae'r nifer o siwyn sy'n cael eu bachu yn disgyn yn sylweddol. Y prif reswm am hyn ydy'r gorddedfnydd a wneir o rwydi gosod ar y traethau yng nghyffiniau aberoedd ein hafoynydd. Mae'r Gymdeithas, a nifer o unigolion yn poeni am y duedd ddinistriol hon, ac yn sicrhau mae'r awdurdodau wedi derbyn nifer o gwynion.

I geisio datrys y broblem danfonwyd cynigion o fframwaith rheolau i'r Swyddfa Gymreig. Gwnaed hyn tua 18 mis yn ôl a'r unig ymateb a gafwyd hyd yma yw'r geiriau hollol gyfarwydd, fod y swyddogion yn dal i 'gysidro y cynigion'. Mae'r oedi yma yn cynyddu'r broblem, ac heb weithredu yn gyflym iawn, yna bydd y broblem tu hwnt i'w datrys.

Ceir adroddiadau fod Llyn Padarn yn 'sgota yn eithriadol o dda. O'r Pasg ymlaen gellir llogi cychod oddi wrth Mr Phillips ger y lanfa neu logi ymlaen llaw trwy ffonio Llanberis 870717.

Y bluen sy i weld yn llwyddo ar y Padarn, ond mae cryn ddefnydd o'r cynrhon. Gwelir nifer o sgotwyr dŵad ar y llyn dros y penwythnosau ac yn anffodus mae nifer ohonynt yn amharchu'r dyfroedd. Mae gan y Gymdeithas reolau llym a bydd angen cwtogi ar y dull 'sgota cynrhon os na wellir ar y sefyllfa. Rhaid i'r 'sgotwrs pleser yma sylweddoli y gwaith caled a roddwyd i mewn i ddiogelu, gwarchod, cynnal

Symud trosodd 007 . . . !

'Does dim angen gwarchod un teulu yn stad Tan-y-buarth, Bethel. Mae'r plant i gyd wedi meistrioli yr hen gelfyddyd o Jiwdo. Mae hon yn gamp sy'n prysur gynyddu ymysg ieuencid Arfon. Mae NIA, ANWEN a WILLIAM SALISBURY yn aelodau brwdfrydig o glwb jiwdo Caernarfon, o dan olygaeth barcud eu hyfforddwr Wyn Hughes.

Yn ddiweddar cawsant gyfle i fesur eu datblygiad tra'n cystadlu ym mhencampwriaeth cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth. Y fedal efydd a ddaeth i William, yn y dosbarth dan 31kg. Yn y gystadleuaeth gyfatebol i ferched, cipiodd Anwen y fedal aur. Roedd safon uchel iawn yn y dosbarth hyn, yn y categori dan 41kg. Llwyddodd yr hynaf o'r triawd hynaws — Nia — i gipio'r fedal arian. Ond nid dyna ddiwedd y stori. Yn dilyn y cystadlu i'r gwahanol ddosbarthiadau cynhaliwyd cystadleuaeth agored. O gofio'r

blinder amlwg o'r cystadlu cynharach, cyflawnwyd camp aruthrol gan Nia wrth gipio'r fedal aur.

Daeth mwy o glod i'r Clwb a'r pentref hefyd pan gipiodd LLION THOMAS (cefnder y triawd) fedal efydd, ac IAN HUGHES fedal arian yn y dosbarth dan 28kg.

Roedd BRYN SALISBURY ac ALUN GAFFEY o Fethel yn cystadlu hefyd ond ni ddaeth llwyddiant y tro hwn.

Llongyfarchiadau iddynt i gyd, a gobeithio na fydd hyn yn rhwystr i ddymuniadau lleol i gael plismon pentref ym Methell!



Anwen, Nia a William — ymladdwyr o fri.

TLWS Y MIS



Colin Jones, enillydd Tlws Mis Mawrth.

a meithrin adnoddau y cylch.

Y gystadleuaeth fawr nesaf fydd yr un o gwch yn unig ar Lyn Padarn, bnawn Sadwrn, Mai 9fed am 3 o'r gloch. Cost cystadlu yw £3. Pob lwc gyda'r enwair, ond ar ddechrau'r tymor y neges fawr yw perchwch a chefnogwch waith caled yr aelodau.

Mae enillydd Tlws y Mis am fis Ebrill yn gyfarwydd iawn i ddilynwyd y bêl gron ym mro'r Eco. Fel Gwil Cwm, neu 'Gwil Bach' fu'n llenwi crys rhif 7 Llanberis am lawer tymor. Buasai'n ddiddorol gwybod sawl milltir a redodd yn creu a sgorio goliau i'r Darans. Mae'n haeddu'r Tlws am ei ymroddiad a'i deyrngarwch i'r Clwb. Yn ddiamheuol gallasai fod wedi chwarae ar lefel uwch. Am ei barodrwydd i helpu'r Clwb mewn unrhyw anhawster y caiff y wobr. Ef sydd wedi bod yn golgeidwad i'r tim yng nghyngair Sealink yn ddiweddar. Sôn am botsiar yn troi'n gipar. Mae ymroddiad a dyfalbarhad Gwil yn symbyliad a her i nifer o chwaraewyr ieuainc. Cofiodd y dyddiau da a'r llwm ar faes Ffordd Padarn, ond mae o yno o hyd. Gyda llaw, ni fydd gorffwys yn ystod misoedd yr haf gan y bydd yn chwarae criced i dîm Fron Dinas.

CWPAN CYNTA'R TYMOR



Tim Llanrug — diolch i gôl Dic Williams — a gurodd Glantraeth ar yr Oval.

CLYWED WRTH BASIO . . .

★ Cafwyd perfformiadau clodwiw gan y tri cynrychiolydd o glwb Llanrug yn y gêm rhwng Cynghair Gwynedd ac ardal Dumfries yn yr Alban yn ddiweddar. Di-sgôr oedd y canlyniad ond gobeithia GARETH JONES, ANDREW WAKEHAM a RICHARD WILLIAMS wella ar hyn yn y frwydr am y bencampwriaeth gyda chlwb Nefyn. Mae Llanrug hefyd yn y rownd derfynol am ddwy gwpan y gynghair. Coron driphlyg efallai.

★ Mae polisi Cyngor Arfon i gyflwyno sbectwm eang o gampau i ieuencid yn dechrau dwyn ffrwyth. Tennis yw un o'r gemau hynny. I aelodau ieuainc cyflwynir tennis byr — gyda chwrt llai a pheli meddal. Yng nghystadleuaeth Arfon cipiwyd y tlws i blant dan 9 oed gan ALED HEFIN ROBERTS. Aeth ei ffrind, OWAIN SIÔN WILLIAMS i bencampwriaeth Gogledd Cymru yn yr Wyddgrug. Llwyddodd i gyrraedd yr 16 olaf.

★ Llongyfarchiadau i dîm dartiau Gors Bach 'A' ar gipio pencampwriaeth adran 3 cylch Caernarfon. Yn anffodus colodd



Owain Siôn ac Aled.

HYWEL HUGHES, yn y gêm olaf — ei unig fethiant yn y gynghair trwy'r tymor. Tipyn o record.

★ Bydd dau frawd o'r cylch yn troedio maes Wembley ar gyfer rowndiau terfynol y ddwy gwpan pêl-droed. Yng nghwpan Rumbelows y perfformiodd ARWEL THOMAS o'r Glyn, Pontrug. Bydd ei frawd, GWYN, yn ymddangos yng nghwpan yr FA. FEI aelodau o fand militaraid y Blues and Royals y byddant yno. (parhad ar dudalen 19)